

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol



**Adroddiad
a Chyfrifon
Blynyddol
2025-26**

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2025-2026

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 40(5) ac adran 40A(2) o Ddeddf Osteopathiaid 1993

© Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2026

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod mai deunydd o dan hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Anfonwch e-bost at info@osteopathy.org.uk eu ffoniwch **020 7357 6655**.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/annualreport

Cynnwys

1. Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol	6
2. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor	8
3. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd	9
4. Ein nodau strategol	10
5. Ein trefniadau llywodraethu a rheoli a'n risgiau	12
6. Sut y gwnaethom ni berfformio yn erbyn ein nodau strategol yn 2025-26	17
7. Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol	26
8. Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf	29
9. Adroddiad ariannol a chyfrifon 2025-26	31

1

Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993, ac mae ganddo ddyletswydd statudol i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopathi yn y DU i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

Rydym yn gweithio gydag osteopathiaid, cleifion a sefydliadau partner i gefnogi gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal hyder y cyhoedd mewn osteopathi trwy ddiogelu enw da'r proffesiwn.

Rydym yn gwneud hyn trwy ddiweddarau ein Cofrestr gyhoeddus o osteopathiaid, a thrwy hyrwyddo safonau ymarfer ac ymddygiad uchel, ynghyd â gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant osteopathig, ymchwilio i bryderon ynghylch osteopathiaid, a diogelu'r teitl osteopathig rhag cael ei gamddefnyddio.

Dyma werth rheoleiddio (gweler y graffig isod): diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod osteopathiaid yn cynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau; gweithio o fewn fframwaith cyfreithiol a moesegol; cydweithio ag osteopathiaid eraill a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill; a helpu i feithrin a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

Gwerth rheoleiddio



Ein rôl

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer osteopathiaid yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i ymarfer yn y DU.

Ein rôl ni yw diogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd, a diogelu enw da'r proffesiwn osteopathig.

Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod â hyder yn y proffesiwn osteopathi, ac rydym yn gyfrifol am y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i osteopathiaid a myfyrwyr osteopathig eu dilyn er mwyn ymarfer yn ddiogel.

Beth rydym yn ei wneud:

- Cadw Cofrestr o bawb sy'n cael ymarfer osteopathi yn y DU.
- Gweithio gyda'r cyhoedd, gyda chleifion a chyda'r proffesiwn osteopathig i benderfynu ar safonau ansawdd uchel o ran ymarfer ac ymddygiad osteopathig, ynghyd â'u cynnal a'u datblygu.
- Helpu cleifion gydag unrhyw bryderon maent yn eu codi am osteopath a bod â'r grym i dynnu unrhyw osteopathiaid oddi ar y Gofrestr, sef y rhai nad ydynt yn bodloni'r safonau proffesiynol ac nad ydynt yn addas i ymarfer.

- Gwirio ansawdd addysg osteopathig a phenderfynu ar y safonau ymarfer mae'n rhaid i fyfyrwyr osteopathig eu dangos cyn iddynt raddio.
- Diogelu'r teitl osteopathig rhag cael ei gamddefnyddio trwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n meddu ar y cymwysterau cywir ac ar gofrestrriad dilys a chyffredol sy'n gallu eu galw eu hunain yn osteopath.
- Gwneud yn siŵr bod osteopathiaid yn cynnal gweithgareddau i gefnogi eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Amcanion statudol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw ei amcanion elusennol hefyd. Trwy gyflawni ein hamcanion statudol fel y nodir trwy'r gweithgareddau yn yr adroddiad hwn, gall yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor) gadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn elusen sydd wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, ac mae wedi cofrestru ers mis Ebrill 2017 (rhif cofrestru 1172749).

Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol hyn wedi cael eu cyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

2

Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor

Mae fy ail flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi bod yn werth chweil a heriol, wrth i ni barhau i lywio trwy gyfnod yn llawn newid i'r sefydliad ac i'r sector ehangach.



Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn llawn pwysau ariannol sylweddol. Fel nifer o reoleiddwyr a sefydliadau, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n fwy

anodd nag erioed, yn cynnwys twf sylweddol yn ein llwyth achosion Addaswydd i Ymarfer. Mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau gofalus er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Un o'r penderfyniadau pwysicaf fu'r penderfyniad i werthu adeilad ein pencadlys. Nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw, ond mae'r Cyngor yn hyderus mai dyna oedd y cam iawn i'w gymryd ar gyfer cryfhau ein sefyllfa ariannol, er ein bod yn cydnabod na fydd, ar ei ben ei hun, yn cynnig ateb i bob problem.

Mae llawer o'n hymgysylltu â'r sector osteopathig yn parhau i gael ei arwain gan y tîm Gweithredol, sydd wedi gweithio'n galed i gynnal cydberthnasau cryf gydag osteopathiaid, cleifion, addysgwyr a phartneriaid. Pleser fu cael mynychu cynhadledd flynyddol y Sefydliad Osteopathi ym mis Tachwedd a chael ymgysylltu ag osteopathiaid yn ystod y digwyddiad deuddydd.

Mae'r cyfleoedd ymgysylltu hyn, ochr yn ochr â mewnwelediadau a ddeilliodd o'n harolwg o aelodau cofrestredig, wedi ein helpu i ddeall yn well beth yw disgwyliadau'r rheoleiddiwr a phennu meysydd lle gallwn feithrin ymddiriedaeth a gwella'r modd rydym yn cyfathrebu ac yn cynorthwyo'r proffesiwn.

Fel Cadeirydd, fy mhrif ffocws fu sicrhau bod y Cyngor yn cynnig goruchwyliaeth strategol glir yn ystod y cyfnod pontio hwn, a'n bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein diben craidd, sef: diogelu'r cyhoedd tra'n cefnogi proffesiwn dibynadwy, hyderus. Felly, i gloi, a gaf eich atgoffa bod croeso i bawb sydd â diddordeb fynychu cyfarfodydd ein Cyngor, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Cofrestrwch ymlaen llaw trwy gysylltu â council@osteopathy.org.uk – byddem yn falch o'ch gweld.

Jo Clift

Cadeirydd y Cyngor
15 Gorffennaf 2026

3

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd

Mae blwyddyn fusnes 2025-26 yn cynrychioli ail flwyddyn Strategaeth newydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.



Yn ein rôl fel rheoleiddiwr un proffesiwn, sy'n anelu at gynorthwyo osteopathiaid i ddarparu gofal o'r radd flaenaf a rhoi hyder i gleifion yn eu hosteopath, mae angen i ni sicrhau

esblygiad, gwelliannau a chynaliadwyedd parhaus.

Mae cynaliadwyedd ariannol wedi cael lle amlwg yn ein trafodaethau eleni. Mae'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor i werthu adeilad y pencadlys yn ddatblygiad sylweddol – ac yn ddatblygiad sy'n arwydd o'r angen i newid.

Fel y soniwyd, mae'r ffaith ein bod yn rheoleiddio un proffesiwn yn unig yn golygu y gallwn ddeall yn well beth yw anghenion osteopathiaid a'r gofynion a roddir arnynt fel gweithwyr proffesiynol gofal iechyd annibynnol, ymreolaethol sy'n darparu gofal o'r radd flaenaf i gleifion. Gan fod yr holl ffioedd a delir gan osteopathiaid yn cael eu hailfuddosoddi yn y proffesiwn trwy reoleiddio a datblygu'r proffesiwn, rydym yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i wasanaethu osteopathiaid a chleifion.

Mae enghraifft o'r ailfuddsoddi hwn wedi arwain at sicrhau ansawdd addysg osteopathig yn fewnol. Golyga hyn y gallwn ddarparu proses drylwyr ond pwrrpasol, a ategir gan ein timau ymwelwyr annibynnol. Dros gyfnod o bum mlynedd, bydd hyn hefyd yn esgor ar arbedion o oddeutu £250k.

Fel un o gyrff arweiniol y sector osteopathig, mae ein gwaith ymgysylltu yn cynnwys rôl ymgynnull. Ym mis Ionawr, 2026, fe wnaethom hwyluso diwrnod datblygu ar gyfer y sector – cyfle i ddwyn arweinwyr ynghyd ar draws

y proffesiwn a chyfle i ganolbwyntio ar gydweithio, deialog a gweithio gyda'n gilydd i oresgyn heriau.

Mae sicrhau y bydd ein gwybodaeth a'n canllawiau'n cael lle amlycach ac yn haws cael gafael arnynt yn rhywbeth y byddwn yn canolbwyntio mwy arno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd ein gwefan newydd yn lansio yn ystod haf 2026, felly bydd y defnyddwyr yn gweld gwedd fwy modern a hygyrch ar y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Bwriadwn weithio'n fwy rhanbarthol, ac am y tro cyntaf bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal hwnt ac yma o amgylch y wlad er mwyn i aelodau'r Cyngor allu ymgysylltu'n well ag osteopathiaid ledled y DU.

Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau 'galw heibio' wythnosol lle gall osteopathiaid a myfyrwyr fewngofnodi ar sgwrs fyw ar Zoom a siarad yn uniongyrchol gyda staff y Cyngor Osteopathig Cyffredinol; a hefyd byddwn yn hyrwyddo mwy ar ein sianel WhatsApp, sy'n boblogaidd iawn ymhlith osteopathiaid sydd wedi'i defnyddio. Bydd hyn oll yn cynnig mynediad haws at y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith eleni, yn enwedig i aelodau fy nhîm; caiff eu hymdrechion eu hadlewyrchu yn y flwyddyn lwyddiannus yr adroddwn amdani yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol.

Matthew Redford

Prif Weithredwr a Chofrestrydd
15 Gorffennaf 2026

4 Ein nodau strategol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026.

Mae ein **Strategaeth, sy'n mynd â ni o 2024 hyd at 2030**, yn nodi ein hymrwymiad i barhau i berfformio fel rheoleiddiwr gofal iechyd effeithiol iawn, gan gynyddu ein dealltwriaeth o sut gallai ein camau effeithio ar yr ymddiriedaeth rhwng y Cyngor Osteopathig Cyffredinol – fel y rheoleiddiwr ar gyfer osteopatheg – a'r proffesiwn a'r cleifion, neu wella'r ymddiriedaeth honno.

Diben ein Strategaeth yw:

- disgrifio'r hyn y mae Cyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn dymuno i'r sefydliad ei gyflawni
- pennu cyfeiriad gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd
- darparu fframwaith i'r Cyngor fonitro perfformiad y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Mae ein Strategaeth yn nodi ein tri nod strategol:

Cryfhau ymddiriedaeth:

Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd.

Hyrwyddo cynhwysiant:

Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Croesawu arloesedd:


Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflawni, fel ein bod yn parhau i wella fel sefydliad.

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Mae ein nodau strategol yn seiliedig ar ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

Ein gweledigaeth yw bod yn rheoleiddiwr cynhwysol ac arloesol y mae pawb yn ymddiried ynddo.

Mae **ein gwerthoedd** yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio nawr a'r ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn gweithio gyda chleifion, y cyhoedd, osteopathiaid a rhanddeiliaid, a sut rydym yn gweithio yn ein sefydliad. Rydym yn cydweithio i fod yn rheoleiddiwr dylanwadol a pharchus gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.



Cydweithredol

Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod cleifion ac osteopathiaid yn rhan ganolog o'n ffordd o reoleiddio.



Dylanwadol

Rydym yn ceisio cefnogi a datblygu'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn cynyddu diogelwch y cyhoedd.



Parchus

Rydym yn ceisio clywed, deall ac ystyried barn y bobl rydym yn ymwneud â nhw.



Ystyriol o'r dystiolaeth

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i dywys ein gwaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion ac i'r cyhoedd.

5

Ein trefniadau llywodraethu a rheoli a'n risgiau

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys Cyngor, pwyllgorau a thîm gweithredol bach. Nododd y Cyngor y prif risgiau mewn nifer o feysydd yn 2025-26 ynghyd â chamau lliniaru allweddol.

Y Cyngor

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys 10 aelod – pum aelod sy'n osteopathiaid a phum aelod lleig. Cefnogir y Cyngor yn ei waith llywodraethu gan bron i 40 o aelodau lleig ac aelodau sy'n osteopathiaid ar ein pwyllgorau statudol ac anstatudol, yn ogystal ag aseswyr cofrestru, ymwelwyr addysg, aseswyr cyfreithiol, cynghorwyr meddygol ac eraill. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 a deddfwriaeth arall.

Mae bywgraffiadau cryno o aelodau presennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol: osteopathy.org.uk/council

Pwyllgorau'r Cyngor

Cynorthwyr y Cyngor i gyflawni ei amcanion gan nifer o bwyllgorau statudol ac anstatudol. Mae tri phwyllgor yn perthyn i'r Cyngor, sef: y Pwyllgor Polisi ac Addysg; y Pwyllgor Archwilio; a'r Pwyllgor Pobl.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau allanol penodedig. Penodir aelodau allanol gan y Cyngor dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am ein pwyllgorau, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/committees

Presenoldeb aelodau'r Cyngor ym mhwyllgorau a chyfarfodydd y Cyngor

Mae aelodau unigol hefyd yn mynychu gweithgoreu, diwrnodau hyfforddi a datblygu, cyfarfodydd ad hoc ac arfarniadau drwy gydol y flwyddyn.

Enw	Cyngor	Pwyllgor Polisi ac Addysg	Archwilio	Pobl
Jo Clift	5/5			
Daniel Bailey	4/5	4/4		
Harry Barton	5/5		3/3	3/4
Gill Edelman*	4/4	1/2		
Sandie Ennis	5/5		2/3	3/4
Caroline Guy**	3/5	1/1**	3/3	
Patricia McClure	5/5	4/4		
Debra Towse	5/5	3/4		4/4
David Probert	3/3	2/3		
Katie Oswell***	1/1			1/1

* Camodd Gill Edelman i lawr ar 31 Rhagfyr 225.

** Cyfetholwyd Caroline Guy i'r Pwyllgor Polisi ac Addysg ar 10 Mehefin 2025 i sicrhau bod yr isafswm aelodau'n bresennol oherwydd gwrthdaro buddiannau ymhlith aelodau eraill y Pwyllgor

*** Dechreuodd cyfnod swydd Katie Oswell ar 1 Chwefror 2026

Pwyllgorau addasrwydd i ymarfer annibynnol

Ein dyletswydd statudol gyffredinol yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig a chynnal safonau proffesiynol. Un ffordd hollbwysig o sicrhau diogelwch y cyhoedd yw trwy gyfrwng ein prosesau addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn ymchwilio i bryderon (a elwir hefyd yn honiadau) ynglŷn ag ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer mewn perthynas ag osteopathiaid, gan ddilyn proses a bennir yn y Ddeddf Osteopathiaid (y Ddeddf), a hefyd rydym yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phryderon o'r fath.

Caiff osteopathiaid a phobl leyg, sy'n annibynnol ar Gyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac a gynorthwyr gan asesydd cyfreithiol (cyfreithiwr cymwysedig a phrofiadol), eu penodi er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer mewn proses a bennir yn y Ddeddf.

Mae tri phwyllgor yn cefnogi swyddogaethau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sef:

- y Pwyllgor Ymchwilio
- y Pwyllgor Iechyd
- y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu'r pwyllgorau hyn, ond mae eu penderfyniadau'n annibynnol ar Gyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Mae'r pwyllgorau'n gweithredu ar ffurf paneli, sydd fel arfer â thri neu bum aelod, i ystyried pryderon ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â honiadau.

Mae gwybodaeth am y Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan. Gweler yr wybodaeth am holl bwyllgorau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol: osteopathy.org.uk/committees

Tîm Gweithredol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Caiff gweithrediadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, yr Uwch Dîm Rheoli a staff eraill.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys:

- Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestrydd
- Fiona Browne, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu
- Sheleen McCormack, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer a Chwnsler Cyffredinol

Ymgynghorwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Archwilwyr

HaysMac LLP
10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

Bancwyr

Royal Bank of Scotland
62-63 Threadneedle Street
Llundain EC2R 8LA

Ein risgiau

Mae'r prif risgiau a nodwyd yn 2025-2026 gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn parhau i fod fel y'u disgrifiwyd y llynedd. Fodd bynnag, rydym wedi cryfhau ein dull o reoli risgiau trwy benodi cwmni archwilio mewnol annibynnol, sef TIAA.

Yn y flwyddyn yr adroddir amdani, mae TIAA wedi archwilio'r pedwar maes canlynol mewn perthynas â gweithgareddau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol:

- Cofrestru
- Addasrwydd i Ymarfer
- Rheoli Risgiau
- Rheolaeth Ariannol a Chyllidebol

Mae TIAA yn pennu'r lefelau sicrwydd canlynol:

Lefel sicrwydd	Naratif
Sicrwydd Sylweddol	Ceir system gadarn ar gyfer mesurau rheoli mewnol sy'n gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli ac y caiff amcanion prosesau eu cyflawni.
Sicrwydd Rhesymol	Yn gyffredinol, mae'r system mesurau rheoli mewnol yn ddigonol ac mae'n gweithredu'n effeithiol, ond mae angen cyflwyno rhai gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli ac y caiff amcanion prosesau eu cyflawni.
Sicrwydd Cyfyngedig	Yn gyffredinol, mae'r system mesurau rheoli mewnol yn ddigonol ond nid yw'n gweithredu'n effeithiol ac mae angen cyflwyno gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli ac y caiff amcanion prosesau eu cyflawni.
Dim Sicrwydd	Mae'r mesurau rheoli mewnol craidd wedi chwalu, neu nid oes mesurau o'r fath i'w cael, ac mae angen cymryd camau ar frys.

Cyflwynodd TIAA yr adroddiad canlynol i'r Pwyllgor Archwilio:

Maes archwilio	Lefel sicrwydd
Cofrestru	Sicrwydd sylweddol
Addasrwydd i ymarfer	Sicrwydd rhesymol
Rheolaeth ariannol a chyllidebol	Sicrwydd rhesymol
Rheoli risgiau	Sicrwydd rhesymol

Mae'r meysydd risg allweddol a bennwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r rhai a bennwyd y llynedd.

Maes risg	Camau Iliniaru
Uchelgeisiau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd ariannol	Cytunodd y Cyngor ar Fframwaith Ariannol ac Asedau ar gyfer 2026-30, sy'n sicrhau bod incwm a gwariant yn cael eu monitro'n fanwl, gan alluogi'r Cyngor i ystyried blaenoriaethau strategol a gwneud cynlluniau tymor hwy ynglŷn â defnyddio adnoddau. Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Cyngor i werthu adeilad y pencadlys ac archwilio lefelau ffioedd cofrestru. Rydym yn gweithio'n agos gyda darparwyr addysg osteopathig, oherwydd sylweddolwn fod y sector addysg uwch yn destun cryn graffu a'i fod o dan gryn bwysau, a bod niferoedd y myfyrwyr yn is nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Newyddion siomedig oedd clywed bod un darparwr wedi cau yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r corff dyfarnu cyfredol i gynorthwyo myfyrwyr i barhau i gwblhau eu haddysg osteopathig. Gwelwn olau ym mhen draw'r twnnel gyda darparwr newydd yn dechrau gweithredu yn 2028 a chan fod safon brentisiaeth yn cael ei datblygu o dan arweiniad y Sefydliad Osteopathi.
Seilwaith TG ddim yn gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a/neu raglen drawsnewid y dyfodol	Rhoddydd system CRM newydd ar waith yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani, sy'n galluogi'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i weithredu'n fwy effeithlon a chyda llawer llai o ymyriadau/gwaith prosesu â llaw, yn cynnwys casglu data manwl yn ymwneud â monitro cydraddoldeb. Bydd gwefan hygyrch, fodern newydd yn cael ei lansio yn ystod haf 2026, a fydd yn adlewyrchu ein tôn yn well ac a fydd yn ein galluogi i gyflwyno gwedd fwy hygyrch i'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym wedi symud tuag at system wal dân ar y cwmwl i baratoi ar gyfer gwerthu adeilad y pencadlys, ac mae gennym gynlluniau ar gyfer cynnal archwiliadau TG annibynnol i asesu ein dull o ymdrin â diogelwch TG. Bydd cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial Microsoft Copilot ledled y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o haf 2026 yn casglu tystiolaeth ar gyfer sut y gallwn ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wella'r modd yr awn ati i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn. Mae ein gwaith craffu ar TG hefyd wedi cael ei wella trwy benodi aelod anweithredol annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, sy'n meddu ar arbenigedd digidol ac arbenigedd trawsnewid TG.
Niferoedd a chymhlethdod yr achosion addasrwydd i ymarfer	Gyda chynnydd mawr mewn achosion addasrwydd i ymarfer, a chyda 40% o'r achosion hynny'n ymwneud â chroesi ffiniau proffesiynol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr adnoddau ariannol sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol yn y maes hwn. Rydym yn gweithio ar draws y sefydliad ar weithgareddau 'ymhellach i fyny'r gadwyn' er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn y proffesiwn i atal cwynion a phryderon rhag digwydd. Yn fewnol, mae gennym hefyd ddulliau cynhwysfawr a chyson o sicrhau ansawdd ochr yn ochr â rhaglen hyfforddi barhaus ar gyfer aelodau'r panel.

Uchelgeisiau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd:

Fel sefydliad ag un brif ffynhonnell incwm (sef ffioedd y rhai sy'n cofrestru gyda ni), rydym yn cydnabod y byddai ein uchelgeisiau strategol a'n swyddogaethau statudol fel rheoleiddiwr yn cael eu tanseilio pe bai ein hadnoddau'n annigonol. Rydym wedi datblygu Fframwaith Ariannol ac Asedau ar gyfer 2026-30 sy'n nodi y bydd gennym ddiffygion ariannol parhaus os na chymerwn gamau unioni. O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi cytuno ei fod am werthu adeilad y pencadlys, ynghyd â lleihau gwariant ac archwilio'r posibilrwydd o gynyddu ffioedd cofrestru.

Mae datblygu'r Fframwaith yn ein helpu i liniaru'r risg hon trwy fynd i'r afael â gwaith cynllunio ariannol tymor hwy er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio ein hasedau, yn cynnwys asedau ffisegol, pobl ac asedau ariannol.

Seilwaith TG ddim yn gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a/neu raglen drawsnewid y dyfodol:

Rydym wedi bod yn ceisio lleihau'r maes risg hwn trwy ddiweddarau systemau etifeddol er mwyn i ni allu gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan ddileu prosesau llaw a mabwysiadu prosesau mwy awtomataidd. Rydym wedi rhoi cronfa ddata gofrestru newydd ar waith ac rydym eisoes yn gweld mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth gasglu data cadarnach ar gyfer monitro cydraddoldeb. Ymhellach, rydym wedi ymrwymo i ailddatblygu platfformau ein gwefan, a roddir ar waith yn ystod haf 2026, er mwyn iddynt adlewyrchu ein dull rheoleiddio modern a chynhwysol.

Mae ein gwaith craffu ar TG hefyd wedi cael ei wella trwy benodi aelod anweithredol annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, sy'n meddu ar arbenigedd

Nifer a chymhlethdod yr achosion addasrwydd i ymarfer:

Mae gan bob rheoleiddiwr gofal iechyd risgiau sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer a'r posibilrwydd y cyflwynir apeliadau yn erbyn penderfyniadau. Mae'r risgiau'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac amseroldeb yr achosion a gaiff eu cwblhau, sy'n gysylltiedig ag un o'n targedau allweddol a gaiff ei fonitro gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ac ar hyn o bryd, mae oedi mewn adroddiadau trydydd parti, fel adroddiadau gan yr heddlu neu ysbytai, yn effeithio ar ein llwyth achosion.

Mae ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu'n fawr – o gymharu â lefelau 2018, mae wedi cynyddu 74%. Nid gwariant unionlin yw gwariant addasrwydd i ymarfer; mae'n ddibynnol iawn ar nifer yr achosion, ac mae'n gysylltiedig â chymhlethdod pob achos unigol. Gwyddom fod achosion sy'n ymwneud â chroesi ffiniau proffesiynol yn fwy cymhleth, eu bod yn cymryd mwy o amser a'u bod yn esgor ar gostau mwy. Ar hyn o bryd, mae mwy na 40% o'n llwyth achosion yn ymwneud â digwyddiadau croesi ffiniau proffesiynol.

Mae ein deddfwriaeth wedi dyddio bellach ac mae'n rhagnodol ac yn aneffeithlon. Er gwaethaf hyn, rydym wedi ymdrechu i gadw ein costau'n isel i'r graddau y bo modd trwy dalu ffioedd ar gyfradd sefydlog i aelodau ein pwyllgorau, i'n haseswyr cyfreithiol, i'n gweithwyr cyngor cyfreithiol allanol ac i'n gweithwyr proffesiynol eraill. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer yr achosion wedi effeithio ar gostau cymharol sefydlog y gwrandawriadau.

6

Sut y gwnaethom ni berfformio yn erbyn ein nodau strategol yn 2025-26

Nod strategol un: Cryfhau ymddiriedaeth

Sicrhau safonau addysgol ar gyfer ymuno â'r Gofrestr

Mae sicrhau bod y graddedigion sy'n ymuno â'r proffesiwn yn bodloni ein safonau cymhwysedd a'n safonau moeseg yn rhan hanfodol o'n rôl, gan helpu i roi sicrwydd i gleifion y bydd unrhyw osteopath sydd ar ein Cofrestr yn cyrraedd yr un safonau uchel.

Ers mis Gorffennaf 2025, caiff gwasanaethau Sicrhau Ansawdd eu gwneud yn fewnol. Mae'r dull mewnol hwn yn ein galluogi i barhau i gynorthwyo pawb, gan fynd ati ar yr un pryd i sicrhau a gwella safonau addysgol.

Mae'r gallu i arddangos ansawdd yr hyn a wnawn yn rhan allweddol o'n gwaith. Gwnawn hyn trwy weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i wrando ar eu hadborth, esbonio'r hyn a wnawn a chyflwyno tystiolaeth berthnasol.

Mae datblygiadau allweddol yn ein prosesau Sicrhau Ansawdd yn cynnwys:

- Creu dogfen 'gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiad' ar gyfer darparwyr addysgol ac ymwelwyr, a sicrhau bod hyn yn rhan barhaol o'r broses fel y gellir rhannu gwybodaeth ac ategu addysg o'r radd flaenaf.
- Penodi Rheolwr Sicrhau Ansawdd arbenigol.
- Cynnal cyfarfodydd 'cyn ymweld' ychwanegol er mwyn gwella eglurder o ran disgwyliadau a chanlyniadau.
- Cymeradwyo llawlyfr interim ar gyfer Sicrhau Ansawdd.

Gweithgarwch sicrhau ansawdd

Fe wnaethom gynnal tri ymweliad: un i'r Brifysgol Gwyddorau Iechyd ar gyfer y cwrs Meistr Osteopathi mewn campws newydd, un i'r Grŵp BCNO ar gyfer cwrs BSc (Anrh) tair blynedd cywasgedig newydd mewn Meddygaeth Osteopathi, ac ail ymweliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn i adnewyddu cydnabyddiaeth o'r cymhwyster presennol. Yn sgil y tri ymweliad hyn, bu modd i ni asesu'r modd y cyflwynir y cwricwlwm yn ymarferol yn erbyn ein Canlyniadau i Raddedigion a'n Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, gan weld addysgu clinigol yn digwydd wyneb yn wyneb.

Yn fewnol, buom yn dadansoddi saith adroddiad blynyddol gan ddarparwyr addysg, gan ganolbwyntio ar y modd roeddynt yn rheoli risgiau ac yn gwella eu hymarfer. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi data ynghyd â thystiolaeth o'r modd roeddynt yn arddangos Safonau Addysg a Hyfforddiant yn eu cwricwla, a data'n ymwneud â chofrestru myfyrwyr a chynnydd myfyrwyr. Cyflwynwyd argymhellion penodol er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr addysg a gynigiant.

Mae cynaliadwyedd y sector yn parhau i fod yn bwnc allweddol, felly eleni canolbwyntiwyd hefyd ar ddadansoddi cynlluniau diogelu myfyrwyr a niferoedd darparwyr addysg. Bydd y rhain yn parhau i gael eu monitro'n ofalus.


Safonau ymarfer: adolygu'r Safonau Ymarfer Osteopathig

Fe wnaethom roi ein hadolygiad o'r Safonau Ymarfer Osteopathig ar waith trwy lansio cais am adborth. Mae'r safonau hyn wrth galon a chraidd ymarfer osteopathig, ac maent yn gosod safonau ar gyfer cymhwysedd, ymddygiad a moeseg – sef safonau mae'n rhaid i bob osteopath ar y Gofrestr eu bodloni.

Hefyd, dangosodd yr adborth fod angen i'r canllawiau fod yn fwy hygyrch, yn enwedig i osteopathiaid niwroamrywiol. O ganlyniad, rhoddwyd gwelliannau sylweddol ar waith i wella hygyrchedd y canllawiau, yn cynnwys:

- Llunio canllawiau haenog a ffurflenni adolygu trafodaethau gan gymheiriaid sy'n amrywio o ran eu manylder i ddiwallu arddulliau addysgu ac anghenion hygyrchedd unigol.

Hyder mewn Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol



Cynhaliwyd yr ymchwiliad gan YouGov: Arolwg o ganfyddiad y cyhoedd 2023

Mae ymchwiliad wedi dangos mai darparu triniaeth a chynghor da, addysg ar lefel gydnabyddedig, a sicrhau bod y sgiliau'n gyfredol, yw'r ffactorau pwysicaf mewn perthynas â hyder wrth ymweld ag osteopath. Bydd ein hadolygiad o'r Safonau Ymarfer Osteopathig, ynghyd â'r cais cychwynnol am dystiolaeth, yn ein helpu i sicrhau y bydd y disgwyliadau hynny'n parhau i gael eu gwireddu.

Cynorthwyo osteopathiaid a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus

Hymgyngoriad DPP gefnogaeth dros gyflwyno DPP gorfodol mewn meysydd yn ymwneud â ffiniau proffesiynol ac ymarfer cynhwysol, sef: tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn.

- Diweddarau adnoddau er mwyn canolbwyntio ar egwyddorion addysgol a'u gwneud yn gwbl hygyrch.
- Ymgysylltu ag osteopathiaid niwroamrywiol, a gweithio gyda nhw, er mwyn profi ein canllawiau a'n hadnoddau ategol.
- Comisiynu arbenigwr mewn tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn i adolygu a darparu cynghor ar ein canllawiau a'n hadnoddau.

Ym mis Mawrth 2026, argymhellodd y Pwyllgor Polisi ac Addysg ganllawiau diweddarach ar gyfer cytundeb y Cyngor, a fydd yn golygu bod DPP mewn cynhwysiant yn elfen orfodol.

Diogelu'r teitl osteopathig

Ymgynghorwyd ynghylch a ddylid ceisio cyflwyno newidiadau i Ddeddf Osteopathiaid 1993 er mwyn diogelu mwy ar y teitl osteopathig. Cawsom 372 o ymatebion ac roedd y mwyafrif llethol ohonynt yn cefnogi'r syniad y dylid ceisio newid y Ddeddf.

Yn dilyn hyn, buom yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i geisio newid y Ddeddf. Yn ychwanegol at hyn, buom yn gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i ddatblygu **datganiad ar y cyd** yn tynnu sylw at bwysigrwydd y teitl osteopathig. Mae'r gwaith hwn hefyd yn golygu y gall y rhai sy'n dymuno codi pryderon wneud hynny'n uniongyrchol gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ynglŷn ag unigolion nad ydynt wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ond sy'n cydweddu eu hysbysebion â'r teitl osteopathig.

Rhaglen Partneriaeth Cleifion

Penodwyd dau Bartner Cleifion i fod wrth galon a chraidd trefniadau llywodraethu osteopathig. Mae'n hanfodol i lais cleifion fod yn rhan o benderfyniadau strategol, ac rydym yn falch o allu torri tir newydd gyda'r fenter hon. Gwyddom fod nifer o reoleiddwyr eraill yn edrych ar ein cynllun peilot â diddordeb mawr, a'u bod yn ystyried sut y gallant ei fabwysiadu.

Bydd ein cynllun peilot yn cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, a bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ynglŷn â dyfodol y model hwn yn ystod 2026-27.

Cynaliadwyedd ariannol

Mae ein Fframwaith Ariannol ac Asedau ar gyfer 2026-30 yn pennu gwaith cynllunio ariannol tymor canolig ynghyd â'r camau y dylid eu cymryd i osgoi diffygion ariannol parhaus, oherwydd yn ystod y cyfnod 2023-26 mae ein gwariant wedi bod £500k yn fwy na'n hincwm.

Mae hyn wedi arwain at benderfynu gwerthu adeilad y pencadlys, ynghyd â lleihau gwariant ac ystyried lefelau ffioedd cofrestru. Mae'n bwysig i ni fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r proffesiwn ynglŷn â'r mater hwn er mwyn i ni allu parhau i feithrin ymddiriedaeth.

Ymgysylltu ag osteopathiaid a phartneriaid

Mae ymgysylltu'n gwbl ganolog i feithrin ymddiriedaeth. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Ymgysylltu ag osteopathiaid mewn cyfarfodydd grŵp rhanbarthol a chynadleddau osteopathig ehangach
- Cyfarfod â myfyrwyr osteopathi yn ystod pob cam o'u hyfforddiant a'u haddysg
- Cael ein cynnwys mewn podlediadau: Matthew Redford yn sôn am rôl y rheoleiddiwr ac am y cymorth ymarferol sydd ar gael i osteopathiaid ym mhodlediad 'Osteobiz' Gilly Woodhouse.
- Ymarferion ymgynghori: diogelu'r teitl
- Partneriaid rhyngwladol:
 - Osteopathy Eurpoe, OIA – rhannu gwybodaeth a mewnwediadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
 - Gweithio gyda sefydliadau ar lefel ryngwladol, lle mae'r broses reoleiddio naill ai'n datblygu neu'n cael ei hystyried.
 - Cyfarfodydd teirochrog gydag Awstralia/Seland Newydd. Mae trafodaethau gyda Seland Newydd wedi arwain at lwybr cofrestru symlach i weithwyr yn Seland Newydd sy'n dymuno cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Engaged with osteopaths via WhatsApp and drop-in sessions.

Nod strategol dau: Hyrwyddo cynhwysiant

Data monitro cydraddoldeb

Eleni, lansiwyd arolwg monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn (EDIB). Ymatebodd bron i 20% o'r proffesiwn, gan arwain at wella hyd a lled y data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Hefyd, rhoddwyd system CRM newydd ar waith, sy'n golygu ein bod bellach yn casglu data manylach ar gyfer monitro EDIB wrth adnewyddu cofrestrïadau'n flynyddol. Bydd y data gwell hwn yn dangos yn gliriach a yw ein systemau a'n prosesau'n creu rhwystrau i osteopathïaid â nodweddion gwarchodedig penodol er mwyn i ni allu cymryd camau i ddileu unrhyw ragfarn a allai fodoli.

Tegwch a chydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau

Mae holl benderfynwyr ac aseswyr cyfreithiol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cael hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd yn ymwneud ag EDIB. Er mai sgrinwyr a phanelwyr sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pryderon ac achosion, cydnabyddwn fod ymwybyddiaeth o EDIB yn hanfodol drwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer, ac o'r herwydd rydym wedi ymestyn yr hyfforddiant perthnasol i bob rheolwr achosion yn y tîm rheoleiddio.

Yng ngoleuni'r argymhellion a gynhwyswyd yn nyfarniad Meade v Social Work England (SWE), yn 2024 aeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ati i gomisiynu hyfforddiant penodol yn ymwneud â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Canolbwyntiodd yr hyfforddiant hwn ar ymwreiddio'r egwyddorion cyfreithiol hyn mewn penderfyniadau, ac fe'i cyflwynwyd i banelwyr, aseswyr cyfreithiol a staff rheoleiddio. Fel rhan o'n hymateb i'r dyfarniad, aethom ati hefyd i gynnal adolygiad mewnol cyflym o'r modd yr ymdrinnir â chwynion er mwyn dod o hyd i unrhyw ddiffygion a nodwyd gan y llys mewn perthynas ag ymchwiliad SWE.

Yn y diwrnod hyfforddi ar gyfer panelwyr a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2026, cyflwynwyd rhagor o hyfforddiant rhyngweithiol yn ymwneud â rheoli tystion agored i niwed, defnyddio mesurau arbennig, a chyflawni'r dystiolaeth orau. Roedd hyn oll yn cynnwys defnydd ymarferol o'r Llawlyfr Triniaeth Deg, sy'n cynorthwyo penderfynwyr i ddeall amgylchiadau amrywiol yr unigolion sy'n ymddangos gerbron tribiwnlysoedd a gwrandawïadau.

Canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ac ymarfer cynhwysol, yn cynnwys:

- Gwella ymwybyddiaeth o wahanol fathau o fregusrwydd, amhariadau ac anableddau
- Darparu canllawiau ar addasiadau rhesymol cyn ac yn ystod achosion
- Ategu cyfranogiad er mwyn i'r holl bartïon allu cyflwyno'u tystiolaeth orau.

Atgyfeiriadau EDIB mewn perthynas ag Addasrwydd i Ymarfer

Dengys ein data fod osteopathiaid gwrywaidd Gwyn, dros 40 oed, sydd wedi bod yn ymarfer ers mwy na 10-12 mlynedd, yn fwy tebygol o weld cwyn yn cael ei dwyn yn eu herbyn (sef cwyn a allai fod angen ystyriaeth y Pwyllgor Ymchwilio), o gymharu â chyfanswm canran yr osteopathiaid gwrywaidd sydd ar y Gofrestr yn unol â'n harolwg monitro EDIB.

Rhannwyd y mewnwelediad hwn gyda'r proffesiwn yn uniongyrchol ar ffurf blog a gyhoeddwyd yn e-fwletin mis Ionawr 2026.

Data EDIB mewn perthynas ag Addysg

Ar sail nifer gymharol fach y bobl sy'n hyfforddi i fod yn osteopathiaid, dengys ein data fod ychydig mwy o fenywod yn dewis hyfforddi i fod yn osteopathiaid. Yn nodweddiadol, mae'r myfyrwyr yn 30+ oed, a dilynir y myfyrwyr hyn gan fyfyrwyr dan 21 oed. Y DU yw'r wlad wreiddiol amlycaf, a gwelir mai Gwyn/Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd y mwyafrif o'r myfyrwyr.

Dros amser, rydym wedi gweld mwy o amrywiaeth mewn perthynas â dwy nodwedd warchodedig ymhlith myfyrwyr osteopathi. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â'r nodwedd ethnig leiafrifol¹ ac anabledd (mewn perthynas â datgan Anghenion Addysgol Arbennig neu gyflwr/cyflyrau iechyd sengl/lluosog).

Cleifion

Mae cynnwys llais cleifion a symud tuag at fodel cydgynhyrchu yn bwysig ym mhob agwedd ar ein gwaith. Heb i lais cleifion dreiddio trwy bopeth a wnawn, bydd yr elfen 'diogelu cleifion' yn gyfyngedig. Yn ychwanegol at ein cynllun peilot 'partneriaid sy'n gleifion', sydd ar waith eleni, rydym wedi cefnogi llais cleifion, a gwrando arno, trwy gyfrwng y canlynol:

- Ein Diwrnod Datblygu Cleifion, a oedd yn cynnwys hyfforddiant arbenigol ar sgiliau dylanwadu i gynorthwyo ein cleifion i fod yn hyderus i adrodd eu stori mewn modd pwerus.
- Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda chleifion yn ymwneud â nifer o wahanol bynciau, yn cynnwys datblygu ein hymgyngoriad ynglŷn â 'diogelu'r teitl' a'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw, ein hymgyngoriad DPP, ac adolygu a diweddarau'r Safonau Ymarfer Osteopathig.
- Ein gweithgareddau sicrhau ansawdd lle caiff safbwyntiau cleifion eu hadolygu mewn ymweliadau sicrhau ansawdd ac adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr addysg.
- Cynnwys cleifion yn y gwaith o brofi defnyddioldeb ein gwefan newydd.
- Ein diwrnod datblygu strategol a fynychwyd gan gleifion, lle cawsant gyfle i gyfrannu at drafodaethau.

¹ Mae hyn yn cynnwys y grwpiau ethnig canlynol: Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig, Du a Du Prydeinig, Tsieineaidd, Cefndir ethnig cymysg ac Arall.

Cydweithio i bontio tuag at ymarfer

Trwy gynorthwyo graddedigion diweddar i bontio tuag at ymarfer, gellir helpu i annog cynaliadwyedd y sector a gofal o'r radd flaenaf i gleifion.

Ym mis Hydref 2025, cynhaliwyd gweithdy ar gyfer y sector cyfan i osteopathiaid, cleifion, graddedigion newydd ac arweinwyr y sector. Y nod oedd archwilio cymorth i osteopathiaid wrth iddynt bontio tuag at ymarfer. Mae yna amgylchedd cymhleth mewn perthynas â hunaniaeth, perthyn a chynhwysiant, a all gyfrannu at brosesau pontio cadarnhaol a llai cadarnhaol.

Nod y gweithdy, a hwyluswyd yn annibynnol, oedd creu man diogel â lleisiau cyfartal ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu graddedigion diweddar, ynghyd ag archwilio nodau cyffredin, pennu ffyrdd ystyrlon o newid tuag at gyrraedd nod cyffredin, a phennu ffyrdd o gyrraedd y fan honno.

Cytunodd y Grŵp Datblygu Osteopathig, a oedd yn cynnwys partïon â buddiant yn y sector (y Sefydliad Osteopathi, darparwyr ôl-raddedig, y Cyngor ar gyfer Sefydliadau Addysgol Osteopathig, cleifion, osteopathiaid, y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig), y dylid mynd ati yn y dyfodol i gynnal cyfres o weithdai â genres gwahanol o osteopathiaid a graddedigion newydd er mwyn datblygu adnoddau ategol.

Nod strategol tri: Croesawu arloesedd

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wrthi'n cynnal nifer o brosiectau arloesol, yn cynnwys:

Datblygu gwefan

Rydym wedi gwneud llawer o waith i ailddatblygu ein gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn sianeli cyfathrebu mwy modern a hygyrch. Byddant yn cael eu lansio yn ystod haf 2026.

Rydym wedi cynnal ymarfer caffael gwefan, ynghyd â dyfarnu contract a chwblhau'r cam darganfod, ac rydym yn gwneud cynnydd da yn ystod cam datblygu'r prosiect. Bydd gwaith yn ymwneud â dylunio gweledol, mudo cynnwys, ymchwil defnyddwyr, profi, a ffurfweddu yn parhau trwy'r gwanwyn/haf.

Deallusrwydd Artiffisial

Er mwyn sicrhau gofal osteopathig o'r radd flaenaf, mae'n hanfodol i ni ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel, yn effeithiol a chydag atebolrwydd. Ym mis Mai 2025, lansiwyd ein **canllawiau interim** ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ymarfer osteopathig. Rydym wrthi'n datblygu mwy o ddeunyddiau ategol er mwyn ategu dealltwriaeth o'r canllawiau a helpu i'w hyrwyddo.

Buom yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i lunio **datganiad ar y cyd** yn ymwneud â defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn addysg i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026.

Rydym wedi datblygu mesurau llywodraethu priodol i reoli'r risg sydd ynghlwm wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn y sefydliad, gan fynd ati ar yr un pryd i sicrhau y gellir gwireddu'r manteision. Cyflwynwyd 'Polisi Defnydd Derbynol' ar gyfer y staff, ac yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn mabwysiadu defnydd strwythuredig o Microsoft Copilot.

Cydweithio mewn ymarfer uwch

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cymryd camau i reoleiddio mwy ar rolau 'ymarfer uwch' yn y GIG. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal i ategu gwell dealltwriaeth o rolau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion mewn ymarfer uwch, a'r modd mae dulliau rheoleiddio statudol presennol yn ategu hyn. Dengys ein gwaith sut mae'r system reoleiddio'n arwain at ymateb rheoleiddio cymesur, effeithiol a chydweithredol, gan sicrhau diogelwch cleifion trwy gyfrwng cyfraniad rhagweithiol gan weithwyr iechyd proffesiynol, rheolwyr, cyflogwyr a rheoleiddwyr.

Cynhaliwyd gweminarau a chawsant oddeutu 1000 o ymweliadau byw. Dosbarthwyd adnoddau cysylltiedig yn eang, ac yn ôl yr adborth cafodd yr adnoddau hynny 4 seren allan o 5. Byddwn yn parhau i fonitro effaith hyn trwy'r flwyddyn nesaf.

Cydweithio yn y maes diogelu

Ar hyn o bryd, ni yw'r unig reoleiddiwr ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n mynnu bod yn rhaid i bob ymgeisydd sy'n dymuno bod ar Gofrestr fynd trwy wiriad manylach ar gyfer gweithgarwch a reoleiddir, sy'n rhan o'n gofynion diogelu.

Eleni, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Disclosure Scotland i godi ymwybyddiaeth o newidiadau pwysig yn nhrefniadau diogelu'r Alban, pan ddaeth aelodaeth o'r cynllun Diogelu Grwpiau Agored i Niwed yn orfodol i bob osteopath yn yr Alban.

Fe wnaethom gyfathrebu gydag osteopathiaid yn yr Alban ac fe wnaethom gynnal tair gweminar ar y cyd ar eu cyfer.

Hefyd, rydym wedi diwygio ein negeseuon cofrestru er mwyn sicrhau y tynnir sylw pob osteopath sy'n gweithio yn yr Alban at y newid pwysig hwn.

Safonau'r Brentisiaeth Osteopathi

Buom yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Osteopathi, Skills England, cyflogwyr osteopathig a phartion allweddol eraill â buddiant i gynorthwyo i ddatblygu a chyhoeddi'r radd lefel 6, sef 'Safon y Brentisiaeth Osteopathi'. Fe wnaethom gytuno bod safon ddrafft y brentisiaeth yn bodloni ac yn cyd-fynd â'n Canlyniadau i Raddedigion, gan nodi y bydd hyn yn parhau i fod yn amodol ar ein prosesau arferol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Dyma ddatblygiad newydd a phwysig mewn osteopathi, a bydd yn esgor ar ffyrdd gwahanol a mwy hygyrch o gymhwyso'n osteopath; ond yn bwysicach na dim, bydd yn sicrhau y gellir cymhwyso hyd at yr un safonau ymarfer uchel.

Cynorthwyo osteopathiaid i sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol diogel

Fel sawl proffesiwn arall, gwelwn gynnydd yn nifer yr achosion sy'n ymwneud â chroesi ffiniau proffesiynol. Mae'r cyd-destun yn arbennig o heriol yn y maes osteopathi oherwydd natur bersonol y driniaeth a'r modd y caiff cyffyrddiad therapiwtig ei brofi a'i dderbyn gan bob claf.

Gwelir cynnydd yn nifer yr achosion er gwaethaf rhaglen waith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i leihau pryderon yn y maes hwn, yn cynnwys: cyhoeddi a dosbarthu astudiaethau achos i ategu DPP, sesiynau wedi'u hwyluso gydag osteopathiaid mewn grwpiau rhanbarthol ac yng nghynhadledd y Sefydliad Osteopathi, yn ogystal â chyhoeddi

blogiau ac erthyglau yn y cyfryngau proffesiynol, yn cynnwys Osteopathy Today. O ddiwedd 2026, bydd yn orfodol dilyn DPP yn y maes hwn.

Oherwydd y cynnydd hwn yn nifer yr achosion, rydym yn cydweithio â'r Brifysgol Agored trwy gyfrwng model arloesol i gydariannu a goruchwyllo osteopath, sef Kathryn Parkin, i wneud ymchwil PhD yn y maes hwn. Mae ymchwil Kathryn yn gwneud defnydd o ddull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth ar gyfer archwilio pam mae'r mathau hyn o bryderon yn gyffredin. Hyd yn hyn, mae hi wedi cael effaith sylweddol, gyda chyflwyniadau ac adborth cadarnhaol a gwahoddiadau i gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol o fewn y sector osteopathig ac yn fwy cyffredinol. Mae dull arloesol o'r fath yn cyfuno ag ymchwil academiaidd a defnydd ymarferol o gychwyn yr astudiaeth, a cheir y potensial i esgor ar effaith fwy yn y maes hwn.

Arwain a datblygu'r sector

Eleni, am y tro cyntaf, fe wnaethom ddefnyddio ein rôl ymgynnull fel rheoleiddiwr i ddwyn ynghyd arweinwyr osteopathi ochr yn ochr â chleifion a myfyrwyr ledled y sector i wneud y canlynol:

- Myfyrio ar ein cydarweinyddiaeth strategol mewn cyd-destun o newid ac ansicrwydd.
- Hwyluso deialog, gwell dealltwriaeth a chydberthnasau gwell, ynghyd â gwella ymddiriedaeth a chynhwysiant rhwng pobl a sefydliadau.
- Gwrando ar y naill a'r llall ynglŷn â chyfleoedd, heriau a blaenoriaethau cyfredol ar gyfer y sector, a'r modd y gweithiwn gyda'n gilydd, yng nghyd-destun sicrhau gofal o'r radd flaenaf i gleifion.
- Myfyrio ar y camau nesaf.

Mae meddwl am y modd yr ategwn gydarweinyddiaeth y sector, ynghyd ag eglurder ynglŷn â'r rolau rhagweithiol sydd gennym o ran ategu gofal o'r radd flaenaf i gleifion, yn rhan bwysig o'n strategaeth mewn perthynas ag arloesi, cynhwysiant ac ymddiriedaeth. Gofynnwyd i Brendan Hall, Arbenigwr ar Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm, siarad â ni am ei hafaliad ymddiriedaeth a myfyrio ar y modd mae hyn yn ein helpu i frwr ymlaen â gofal o'r radd flaenaf ledled ein sector.

Gwaith rhyngwladol

Rydym yn parhau i ymhél â'r llwyfan rhyngwladol lle mae ein gwybodaeth a'n harbenigedd ym maes rheoleiddio yn ein galluogi i ategu safonau y tu allan i'r DU a rhannu arferion gorau y tu hwnt i ffiniau ein gwlad. Mae llwyddiannau allweddol eleni yn cynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd aelodau a chynadleddau Osteopathy Europe, gan roi cyflwyniadau'n ymwneud â rheoleiddio statudol a rhannu mewnwelediadau a gwybodaeth gyda gwledydd sy'n awyddus i reoleiddio.
- Dechrau gweithio ar y cyd â'r Sefydliad Osteopathi a'r Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig cyn dechrau ar waith ledled Ewrop i ddiwygio'r Safon CEN ar gyfer osteopathi.
- Llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Osteopathig Seland Newydd er mwyn ei gwneud yn symlach i ymarferwyr cofrestredig symud o'r naill awdurdodaeth i'r llall.
- Rhoi cyflwyniad yn ymwneud â 'gwrando, dysgu, arwain: siwrnai cleifion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol' yng nghynhadledd 'Osteopaths New Zealand' ac 'Osteopathy Australia'.
- Mynychu cynhadledd y Cynghrair Osteopathig Rhyngwladol yn Toronto. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyflwyniad yn ymwneud â siwrnai'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol mewn perthynas ag ymgysylltu â chleifion; rhoi cyflwyniad ar y cyd gyda chydweithwyr o gyrff rheoleiddio yn Awstralia a Seland Newydd ynglŷn â gweithio ar y cyd ar draws awdurdodaethau; a chymryd rhan mewn panel rheoleiddio a ddaeth â digwyddiad y Cynghrair Osteopathig Rhyngwladol i ben.
- Sefydlwyd cysylltiadau newydd gyda chydweithwyr rhyngwladol, yn arbennig o'r Swistir a hefyd o wahanol daleithiau yng Nghanada. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn rhannu mewnwelediadau gyda chydweithwyr yn New Brunswick (wrth iddynt roi trefn reoleiddio ar waith) a Nova Scotia a British Columbia (wrth iddynt ystyried trefn reoleiddio).
- Ymgysylltu â chynrychiolwyr o Brifysgol Sri Sri a ddaeth draw o India ac a oedd yn dymuno cael gwybodaeth am arferion gorau'n ymwneud â rheoleiddio.

7

Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol

Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer

Yn 2025-26, derbyniwyd 95 o bryderon. Dros y cyfnod hwn, gwnaed 97 o benderfyniadau gan sgrinwyr, ac atgyfeiriwyd 56 o achosion at y Pwyllgor Ymchwilio i'w hystyried. Yn ystod y flwyddyn, daeth Pwyllgor Ymchwilio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i benderfyniad terfynol mewn 36 o achosion. O'r rhain, atgyfeiriwyd 18 at wrandawriad llawn y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; mewn pedwar achos, rhoddwyd cyngor i'r cofrestrai gan y Pwyllgor Ymchwilio, ac yn yr 14 achos arall penderfynwyd nad oedd achos i'w ateb ac ni chymerwyd camau pellach.

Gall cleifion, osteopathiaid a thystion sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad ddefnyddio ein Gwasanaeth Cymorth Annibynnol rhad ac am ddim a gaiff ei redeg gan yr elusen Cymorth i Ddiodefwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig man diogel cyfrinachol i bobl drafod eu teimladau ynglŷn â'r broses a siarad trwy'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn ystod pob cam. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cysylltodd 12 o dystion a thri osteopath â'r gwasanaeth cymorth annibynnol, a chawsant gymorth ganddo.

Dros y flwyddyn, daeth y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ag 19 o achosion i ben; mewn 11 o'r achosion hynny, gosodwyd sancsiwn yn erbyn yr osteopath (gweler y tabl).

Sancsiynau a osodwyd mewn achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2025-26	Nifer yr achosion
Rhybuddiwyd	5
Gosodwyd amodau	2
Ataliwyd	3
Tynnwyd oddi ar y gofrestr	1
Cyfanswm	11


Ym mis Tachwedd 2025, fe wnaethom gomisiynu archwiliad allanol o'r achosion a'r pryderon a gaewyd gan sgrinwyr a'r Pwyllgor Ymchwilio, a oedd yn ymwneud â'r meini prawf trothwy dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Awst 2024. (Mae sgriniwr yn golygu osteopath sy'n aelod o'r Pwyllgor Ymchwilio ac sy'n adolygu pryderon er mwyn pennu a yw'r dystiolaeth yn gyfystyr â honiad.) Ni ddaethpwyd o hyd i bryderon yn ymwneud â diogelu cleifion, ond dysgodd y sefydliad rai pethau defnyddiol. Er bod tôn ein gohebiaeth gyda'r cyfranogwyr yn ystod y broses Addasrwydd i Ymarfer yn broffesiynol, yn barchus ac yn ddefnyddiol, un peth a ddysgwyd oedd y gallai ein cyfathrebu gyfleu mwy o empathi tuag at sefyllfa'r unigolyn sy'n destun penderfyniad; dyma rywbeth rydym wedi bod yn myfyrio arno.

Yn ystod 2025/26, llwyddwyd i erlyn dau achos yn ymwneud â diogelu'r teitl. Ar 22 Mai 2025, cafwyd Gareth Milner yn euog yn Llys Ynadon Dinas Llundain o ddefnyddio'r teitl osteopathig, gan dorri adran 32(1) o'r Ddeddf Osteopathiaid. Cafodd Mr Milner ddirwy o £2,000 ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau o £1,080 i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Hefyd, gorchmynnwyd Mr Milner i dalu gordal dioddefwyr o £800.

Llwyddasom i erlyn Lilly laschelcic am ddefnyddio'r teitl 'osteopath' yn anghyfreithlon. Ar 26 Tachwedd 2025, cafwyd Ms laschelcic yn euog yn Llys Ynadon Dinas Llundain o ddefnyddio'r teitl osteopathig, gan dorri adran 32(1) o'r Ddeddf Osteopathiaid. Gosododd y llys ddirwy o £623, a oedd yn daladwy o fewn tri mis. Hefyd, gorchmynnwyd bod yn rhaid i Ms laschelcic dalu £85 o gostau i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol a £249 o Ordal Dioddefwyr.

Ynglŷn â'r Gofrestr

Ar 31 Mawrth 2026, roedd 5,653 o osteopathiaid wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.



4,884 o osteopathiaid yn Lloegr


158 o osteopathiaid yn yr Alban

164 o osteopathiaid yng Nghymru

28 o osteopathiaid yng Ngogledd Iwerddon

419 o osteopathiaid yng ngweddill y byd

Rhywedd	Nifer
Menyw	2,996 (53%)
Dyn	2,657 (47%)
Cyfanswm	5,653 (100%)



Hyfforddwyd y 254 o osteopathiaid newydd neu rai a ddychwelodd i'r Gofrestr gyda'r darparwyr addysg canlynol:

Man hyfforddi	Y nifer a ymunodd â'r Gofrestr
Coleg Meddygaeth Osteopathig Prydain ¹	26
Coleg yr Osteopathiaid	31
Ysgol Osteopathi Ewrop ¹	27
Y Brifysgol Gwyddorau Iechyd (UCO gynt)	83
Ysgol Osteopathi Llundain	30
Prifysgol Brookes Rhydychen	1
Coleg Technoleg Gogledd Ddwyrain Surrey	9
Prifysgol Abertawe	31
Prifysgol St Marks and St John (Marjon)	11
Prifysgol Derby	4
Dramor	1
Cyfanswm	254

¹ Sylwer: Mae Coleg Meddygaeth Osteopathig Prydain ac Ysgol Osteopathi Ewrop bellach yn rhan o'r Grŵp BCNO a chânt eu dilysu gan Brifysgol Plymouth.

Yn 2025-26, cynhaliodd ein Haseswyr Cofrestru – y mae pob un ohonynt yn osteopathiaid cymwysedig – gyfanswm o 18 o asesiadau cofrestru, o gymharu â 34 o asesiadau cofrestru yn y flwyddyn flaenorol.

Math o asesiad	Nifer
Asesiad o gymhwyster y tu allan i'r DU	5
Tystiolaeth bellach o asesu ymarfer	2
Asesu perfformiad clinigol	1
Adolygiad dychwelyd at ymarfer	10
Cyfanswm	18

Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Bob blwyddyn, cawn ein hasesu yn erbyn Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, sy'n cynnig dyfarniad annibynnol, seiliedig ar dystiolaeth, yngŷn â pha mor dda mae pob rheoleiddiwr sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yn diogelu'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno adborth ar yr hyn a wnawn yn dda a'r modd y gallwn wella yn y dyfodol. Mae ein gwaith adrodd yn ymestyn o 1 Ebrill i 31 Mawrth, ac yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2025-26) cyhoeddwyd adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer perfformiad y flwyddyn flaenorol (2024-25), lle dangoswyd ein bod wedi bodloni pob un o'r 18 Safon.

Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym wedi penderfynu y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn eleni yn cynnwys canlyniadau ein perfformiad ar gyfer 2025-26, er nad yw'r adroddiad cyhoeddus ar gael eto. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi pennu ein bod wedi bodloni 17 o'r 18 Safon, ac nad ydym wedi bodloni Safon 3 mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Wrth gwrs, rydym yn siomedig nad ydym wedi bodloni'r holl Safonau, ond sylweddolwn fod y ffaith ein bod wedi bodloni 17 o'r 18 Safon yn golygu ein bod yn dal i berfformio'n dda iawn fel rheoleiddiwr, ac ymfalchiwn yn hynny.

Rydym yn anghytuno'n gryf â phenderfyniad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ynglŷn â'n perfformiad mewn perthynas â Safon 3, a bydd yr adroddiad terfynol a gyhoeddir gan yr Awdurdod yn cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw er mwyn i ni allu cyfleu ein barn yn glir i'r darllenwyr.

8

Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Eleni oedd ail flwyddyn ein Strategaeth newydd, hyd at 2030.

Mae'r Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ein blaenoriaethau strategol a'n camau gweithredu allweddol, ac mae pob un ohonynt yn seiliedig ar ein gwerthoedd sefydliadol newydd.

Gan edrych tua'r dyfodol, yn 2026-27 byddwn yn cyflawni yn erbyn ein Strategaeth trwy gyfrwng y gweithgareddau canlynol:

Cryfhau ymddiriedaeth: Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud?

- Gwerthuso'r Rhaglen Partneriaeth Cleifion Strategol a gwneud argymhellion ynglŷn â'i dyfodol.
- Cyhoeddi'r Safonau Ymarfer Osteopathig drafft ar gyfer ymgynghori yn eu cylch.
- Gwerthuso'r modd y rhoddir ein trefn Sicrhau Ansawdd fewnol ar waith.
- Gwneud penderfyniadau hirdymor ynglŷn ag arian ac asedau, sy'n ategu'r gwaith o gyflawni gofal osteopathig o'r radd flaenaf trwy gyfrwng ein cyfrifoldebau statudol a nodau strategol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Codi ymwybyddiaeth o'n rôl ac ymgysylltu mwy ag osteopathiaid, myfyrwyr, cleifion a phartion â buddiant er mwyn gwella ymddiriedaeth a dealltwriaeth a gweithredu safonau.

Hyrwyddo cynhwysiant: Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud?

- Casglu, dadansoddi a chyhoeddi newidiadau mewn data am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, neu fesurau lliniaru a roddwyd ar waith, lle rydym wedi nodi bod yna effaith ormodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Hyrwyddo ein cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a'r camau y bwriadwn eu cymryd i ddatblygu ein hymrwymiad i Hyrwyddo Cynhwysiant.
- Cymryd y camau cyntaf ar gyfer gweithredu'r egwyddorion cyffredin a'r gofynion sy'n deillio o Adolygiad Mann mewn perthynas â gwrth-hiliaeth.
- Ategu'r arfer o recriwtio a chadw gweithwyr er mwyn cynnal a gwella proffesiwn cynaliadwy ac amrywiol ac er mwyn cynorthwyo osteopathiaid i ymarfer yn unol â safonau uchel.
- Cryfhau ymarfer cynhwysol: cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn gyda chynllun DPP y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Croesawu arloesedd: Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflawni, fel ein bod yn parhau i wella fel sefydliad.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud?

- Gweithredu a lansio gwefan gyhoeddus newydd a fydd yn cynnig cynnwys a sianeli mwy modern, arloesol a diddorol.
- Ystyried yr effaith a gaiff Deallusrwydd Artiffisial ar safonau osteopathig, rheoleiddio a gofal i gleifion.
- Ceisio gwelliannau parhaus sy'n deillio o adolygiadau annibynnol a gweithgareddau archwilio mewnol.
- Datblygu systemau/strwythurau ar gyfer hwyluso trafodaethau ledled y sector, a gaiff eu hadeiladu ar sail ymddiriedaeth, parch a diogelwch seicolegol.

9

Adroddiad ariannol a chyfrifon 2025-26

Cyflwyniad

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, dychwelwyd yn raddol at sefydlogrwydd economaidd ar gyfer y DU. Parhaodd chwyddiant i leihau ar ôl y lefelau uchel a welwyd yn flaenorol, gostyngodd cyfraddau llog yn sylweddol o gymharu â'r lefelau a welwyd ar ôl y pandemig, a llwyddodd economi'r DU i osgoi dirwasgiad, gan ddychwelyd at rywfaent o dwf. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, parhaodd costau byw i fod yn uchel a choleddodd aelwydydd a busnesau farn ochelgar ynglŷn sailn â'r economi. Parhaodd digwyddiadau byd-eang a datblygiadau polisi domestig i ddylanwadu ar y rhagolygon economaidd.

I'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, y canlyniad ariannol ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg o £266,000, a oedd yn waeth na'r gyllideb o oddeutu £25,000. Fe wnaethom wario tua £185,000 o gronfeydd dynodedig. Roedd ffioedd cofrestru tua £85,000 yn fwy na'r gyllideb, a chawsant eu hategu gan fuddsoddiad o oddeutu £121,000 (£81,000 yn uwch nag a ragwelwyd), ynghyd â thanwariant o oddeutu £7,000 ar Addysg a Safonau Proffesiynol a £5,000 mewn Llywodraethu. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso gan rywfaent o orwariant mewn Addasrwydd i Ymarfer (sef oddeutu £185,000), Adnoddau Canolog ac Ariannu (£30,000) Costau Cyflogaeth (£16,000) a TG a Seilwaith (£16,000).

Rydym yn edrych yn rheolaidd ar ein dull rheoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ychwanegu gwerth. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cynnwys:

- Sut y gallwn symleiddio ein gwaith a'i wneud yn fwy cost-effeithiol?
- Sut y gallwn sicrhau ein bod yn gwranddo, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n effeithiol mewn cyfnod pan mae rhyngweithio wyneb yn wyneb wedi lleihau?
- Sut ydym yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd mewn modd cyson a phriodol?

Bum mlynedd yn ôl, fe wnaethom gyflwyno ein Datganiad Gwerth, lle disgrifiwn sut mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth. Rydym wedi nodi yn yr adroddiad hwn lle mae ein gwaith yn 2025-26 yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn.

Y Datganiad Gwerth

Mynegir ein dull rheoleiddio trwy gyfrwng **Ein Strategaeth: sy'n mynd â ni o 2024 hyd at 2030** ynghyd â'n cynlluniau busnes sylfaenol a ddatblygwn bob blwyddyn.

Mae'r gweithgareddau a nodir yn y cynlluniau busnes blynyddol wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer:

- **Cryfhau ymddiriedaeth** – byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rheini rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd gyda'n gilydd.
- **Hyrwyddo cynhwysiant** – mae'n bwysig i ni y bydd pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.
- **Croesawu arloesedd** – byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd, a manteisio arnynt, i wella beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud hynny, er mwyn i ni barhau i wella fel sefydliad.

Yr egwyddorion sy'n sail i'r Datganiad Gwerth

Mae'r Datganiad Gwerth yn seiliedig ar gyfres o werthoedd craidd. Mae'r gwerthoedd hyn yn ategu'r modd y gweithiwn ac maent yn cyfrannu at ddatblygu ein cynlluniau busnes a'n cyllidebau.

Dyma'r egwyddorion:

- **Cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd:** sicrhau bod lefelau ariannu priodol ar gael i allu cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd.
- **Clywed llais y claf:** byddwn yn dyrannu adnoddau fel bod llais y claf yn llywio ein gwaith nawr ac yn y dyfodol.
- **Edrych ar ddechrau'r broses yn fanylach:** byddwn yn sicrhau ein bod yn canfod ac yn ariannu gweithgareddau sy'n ategu rheoleiddio ar ddechrau'r broses, ac sy'n berthnasol ac yn briodol i'n cyd-destun.
- **Gwelliant parhaus:** byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i sbarduno gwelliant parhaus fel y gallwn fod yn well sefydliad yfory nag ydym heddiw.
- **Digidol yn gyntaf:** byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dull gweithredu 'digidol yn gyntaf' er mwyn symleiddio ein gweithgareddau.
- **Cost-effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd:** rydym yn sicrhau ein bod yn ofalus lle caiff ein hadnoddau eu defnyddio er mwyn bod yn gost-effeithlon ac yn gost-effeithiol.

Rydym o'r farn bod tair elfen yn perthyn i'n datganiad gwerth:

1. Sicrhau diogelwch y cyhoedd

2. Datblygu'r proffesiwn

3. Darparu camau llywodraethu cadarn

Elfen un: Sicrhau diogelwch y cyhoedd

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau diogelwch ein cleifion a'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Mae ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cynnwys:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant
- datblygu, gosod a chynnal Safonau Ymarfer Osteopathig
- cynnal uniondeb Cofrestr statudol yr osteopathiaid
- rheoli pryderon trwy gyfrwng ein prosesau addasrwydd i ymarfer

Mae diogelu'r cyhoedd yn ganolog i'r gwaith a wnawn, ac adlewyrchir hyn gan y gweithgareddau o dan yr elfen hon sy'n cwmpasu ystod lawn ein busnes.

Ym mlwyddyn ariannol 2025-26, fe wnaethom wario £1.91m ar ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd (2025: £1.68m).

Roedd hyn yn cyfateb i 53% o gyfanswm ein cyllideb (2025: 51%) ac mae'n golygu, am bob ffi gofrestru o £570 a gawn, ein bod yn gwario £302 o'r arian hwnnw ar sicrhau diogelwch y cyhoedd (2025: £290).

Elfen dau: Datblygu'r proffesiwn

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn datblygu'r proffesiwn ac yn darparu cymorth priodol er mwyn iddo allu cynnal gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ein gweithgareddau i ddatblygu'r proffesiwn yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r proffesiwn i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth
- Cyfrannu cyllid i'r Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig
- Cyllido tanysgrifiad ledled y proffesiwn ar gyfer yr International Journal of Osteopathic Medicine (IJOM) a chyfnodolion ymchwil eraill
- Ystod o weithgareddau cyfathrebu gyda phwyslais newydd ar wrando ac ymgysylltu.

Ym mlwyddyn ariannol 2025-26, fe wnaethom wario £0.76m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cefnogi'r proffesiwn (2025: £0.80m).

Roedd hyn yn cyfateb i 21% o gyfanswm ein cyllideb (2025: 24%) ac roedd yn golygu, am bob £570 o ffi gofrestru a gawn, ein bod yn gwario £120 o'r arian hwnnw ar ddatblygu'r proffesiwn (2025: £137).

Elfen tri: Darparu llywodraethu cadarn

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd darparu llywodraethu cadarn. Dylai llywodraethu da sicrhau bod sefydliad yn aros yn sefydlog ac yn gynhyrchiol, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae ein gweithgareddau i ddarparu llywodraethu cadarn yn cynnwys:

- penodi, hyfforddi a chynnal strwythur llywodraethu sy'n cynnwys y Cyngor, y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl

- cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus a sicrhau bod papurau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw
- buddsoddi yn ein seilwaith TG a ffyrdd digidol newydd o weithio
- gwneud ein gwaith yn destun archwiliadau ac adolygiadau annibynnol

Ym mlwyddyn ariannol 2025-26, fe wnaethom wario £0.95m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn darparu llywodraethu cadarn (2025: £0.84m).

Roedd hyn yn cyfateb i 26% o gyfanswm ein cyllideb (2025: 25%) ac roedd yn golygu, am bob ffi gofrestru o £570 a gawn, ein bod yn gwario £148 o'r arian hwnnw ar ddarparu camau llywodraethu cadarn (2025: £143).

Tabl yn dangos y Datganiad Gwerth, gwariant yn ystod y flwyddyn, % o gyfanswm y gwariant a chyfran y ffi gofrestru o £570



Elfennau'r Datganiad Gwerth	Gwariant yn ystod y flwyddyn ¹ £	Canran o gyfanswm y gwariant %	Cyfran y ffi gofrestru £570 a ddefnyddiwyd £
Sicrhau diogelwch y cyhoedd	1.91m (2026) 1.68m (2025)	53 (2026) 51 (2025)	302 (2026) 290 (2025)
Datblygu'r proffesiwn	0.76m (2026) 0.80m (2025)	21 (2026) 24 (2025)	120 (2026) 137 (2025)
Darparu llywodraethu cadarn²	0.95m (2026) 0.84m (2025)	26 (2026) 25 (2025)	148 (2026) 143 (2025)


¹ Ac eithrio colledion buddsoddi a/neu daliadau

² Sylwer nad yw'r ffigurau a gynhwysir yn y datganiad gwerth ar gyfer Llywodraethu yn berthnasol i'r nodiadau ar Lywodraethu yn y nodiadau i'r cyfrifon

Beth mae'r ffi gofrestru yn ei ariannu yn ôl y datganiad gwerth?

Holltir y brif ffi gofrestru o £570 i ddangos swm y gwariant ar draws datganiad gwerth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn 2025-2026.


Gwariant yn ystod y flwyddyn**Cyfran o'r ffi gofrestru £570 a ddefnyddiwyd**



 Sicrhau diogelwch y cyhoedd **53%**

 Darblygu'r proffesiwn **21%**

 Darparu llywodraethu **26%**



 Sicrhau diogelwch y cyhoedd **45%**

 Darblygu'r proffesiwn **24%**

 Darparu llywodraethu cadarn **31%**

Incwm a gwariant

Cyflwynir y cyfrifon, a nodir yn fanylach dros y tudalennau canlynol, yn unol â'r SORP Elusennau (Safon Adrodd Ariannol 102).

Gorffennodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y flwyddyn ariannol gyda diffyg o £266,235; lleihawyd y diffyg gan elw buddsoddi o tua £121,000.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm yr incwm oedd £3,211,595. Roedd incwm y ffi gofrestru yn cyfateb i 96% o gyfanswm yr incwm. Mae ffioedd cofrestru unwaith eto wedi'u cynnal ar eu lefel bresennol – y ddeuddegfed flwyddyn yn olynol, sy'n cynrychioli gostyngiad mewn termau real. Deilliodd gweddill yr incwm o feysydd fel enillion y portffolio buddsoddi, llog banc, ac asesiadau cofrestru.

Nid yw'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn mynd i'r afael ag unrhyw weithgarwch codi arian sy'n gofyn am ddatgeliad o dan Adran 162A o Ddeddf Elusennau 2011.

Roedd gwariant y flwyddyn yn £3,598,580 ar ôl gwariant dynodedig; dangosir y dadansoddiad ar y ddwy dudalen nesaf.

Costau datblygu a rheoleiddio

Mae costau gweithgareddau rheoleiddio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn perthyn i'r pedwar prif faes canlynol (sylwer bod costau staffio wedi'u cynnwys ym mhob un o'r rhain):

- **Safonau addysg a safonau proffesiynol**

Mae sicrhau ansawdd darparwyr addysgol osteopathig yn parhau i fod yn elfen sylfaenol o'r gwaith a wneir yn y maes hwn, ochr yn ochr â datblygu a gweithredu'r cynllun datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Yn 2025-26, roedd y costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £520,458 yn y flwyddyn, o gymharu

â £652,447 yn y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 20%. Roedd y costau uniongyrchol mewn perthynas â sicrhau ansawdd tua £90,000 (gostyngiad o 61% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn dilyn y penderfyniad i wneud gwaith sicrhau ansawdd yn fewnol), a gwariwyd oddeutu £16,000 ar weithgareddau ymchwil.

- **Cofrestru**

Yn 2025-26, roedd y costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £181,900 yn y flwyddyn, o gymharu â £177,900 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 2%. Roedd cyfanswm y costau nad oeddynt yn gostau staffio tua £4,000, yn cynnwys costau asesu cofrestru a gwariant cysylltiedig ar gyfer hyfforddi ac arfarnu aseswyr cofrestru.

- **Addasrwydd i ymarfer a chyfreithiol**

O ran gwariant y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, cost cynnal ymchwiliadau a gwrandawladau yw'r gost unigol fwyaf o hyd nad yw'n ymwneud â staff.

Yn 2025-26, roedd y costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £1,203,539 yn y flwyddyn, o gymharu ag £859,657 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 40%. Roedd hyn yn cynnwys cost y Pwyllgor Ymchwilio, a oedd oddeutu £145,000, gyda'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn gwario tua £381,000. Hefyd, cynhwyswyd costau o £55,000 yn ymwneud â'r dyfarniad 'NMC v Somerville' a bennodd fod aelodau ein panel Addasrwydd i Ymarfer yn weithwyr a bod ganddynt hawl i gael tâl gwyliau a chynllun pensiwn gwirfoddol.

Cyfathrebu, ymchwil a datblygu

Yn 2025-26, roedd y costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £427,983, o gymharu â £490,415 yn y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 13%. Roedd y costau'n ymwneud â datblygu a chynnal a chadw'r wefan, ynghyd â chyhoeddiadau – sef tua £37,000. Yn ogystal, mae'r costau cyffredinol yn cynnwys darparu mynediad am ddim at gyfnodolion ymchwil i osteopathiaid, a dyraniad ar gyfer costau seilwaith y Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig, sef cyfanswm o oddeutu £65,000.

Costau gweinyddu a gorbenion

Meysydd cost eraill y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw rhai sy'n ymwneud â gweithredu seilwaith y sefydliad, yn cynnwys costau adeiladu a TG, a gweinyddu Cyngor a phwyllgorau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sy'n swyddogaethau hanfodol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol.

• Llywodraethu

Mae costau llywodraethu'n ymwneud â lwfansau aelodau'r Cyngor, treuliau pwyllgorau, arfarniadau, a recriwtio aelodau newydd.

Yn 2025-26, roedd y costau llywodraethu'n £560,228, o gymharu â £539,819 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 4%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gwaith ymgynghorol a gynhaliwyd yn ymwneud ag effeithiolrwydd y bwrdd, a gwaith archwilio mewnol, a wrthbwysswyd gan ostyngiad mewn costau recriwtio a chostau cyfarfodydd y cyngor. O fewn y costau llywodraethu roedd yr ardoll ar bob rheoleiddiwr sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer costau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol; talodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ardoll o £15,621.

• Seilwaith TG

Eleni, canolbwyntiwyd ar sicrhau bod seilwaith TG y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ddiogel ac yn addas i'r diben, yn cynnwys rhywfaint o wariant ar seiberddiogelwch a threialu wal dân ar y we yn barod ar gyfer gwerthu adeilad y pencadlys. Mae'r gwariant ar TG yn adlewyrchu cost Cofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM), ynghyd â thrwyddedau a gwasanaethau swyddfa eraill.

Yn 2025-26, roedd y costau TG uniongyrchol yn £141,395, o gymharu â £132,879 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 6%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau'r contract CRM.


• Adnoddau canolog ac ariannu

Mae gwariant yn y maes hwn yn adlewyrchu costau eiddo, gweinyddiaeth swyddfa gyffredinol a theithio. Mae hefyd yn cynnwys ffioedd archwilio, llog banc a dibrisiant, yn ogystal â chronfa ganolog ar gyfer prosiectau arloesol.

Yn 2025-26, roedd y costau adnoddau ac ariannu'n £306,481, o gymharu â £255,340 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 20%. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwariant ar y gronfa ganolog ar gyfer prosiectau arloesol (£34,000), a gwariant o oddeutu £11,000 ar gostau marchnata ar gyfer gwerthu adeilad y pencadlys. Hefyd, cafwyd cynnydd mewn taliadau banc a thaliadau talu er mwyn galluogi cofrestreion i dalu eu ffioedd blynyddol trwy gyfrwng y wefan.

Beth mae'r ffi gofrestru yn ei ariannu?

Isod, rhennir y brif ffi gofrestru o £570 i ddangos swm y gwariant ar bob un o swyddogaethau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn 2025-26:



- Data, ymchwil a gwerthuso (£8.58) 1%**
Mae'n cwmpasu casglu gwybodaeth ar gyfer sylfaen dystiolaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, metrigau a mewnwleidiadau'n ymwneud ag effaith.
- Adnoddau canolog ac ariannu (£79.37) 14%**
Yn cynnwys eiddo, gweinyddu swyddfa a ffioedd archwilio.
- Cyfathrebu ac ymchwil (£67.79) 12%**
Yn cynnwys cyfathrebiadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol a mynediad am ddim i osteopathiaid at gyfnodolion ymchwil drwy the o zone
- Addysg a safonau proffesiynol (£73.86) 13%**
Sicrhau ansawdd darparwyr addysg osteopathig; cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ac adolygu a diweddarau'r OPS.
- Addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys cyfreithiol (£190.64) 33%**
Cynnal ymchwiliadau a gwrandawliadau; Costau cyfreithiol a phwyllgorau.
- Llywodraethu (£88.74) 16%**
Rhedeg y Cyngor a'r Pwyllgorau ac mae hefyd yn cynnwys ardoll i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol o £14,118.
- TG a'r Seilwaith (£32.21) 6%**
Seilwaith ar gyfer y Gofrestr, system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, a seiberddiogelwch
- Cofrestru (£28.81) 5%**
Costau cynnal y Gofrestr a chostau asesu cofrestrïadau.

Cronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau

Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cadw cronfeydd wrth gefn fel rhan o ymarfer busnes da er mwyn sicrhau y bydd arian ar gael pe bai digwyddiadau annisgwyl yn codi, megis cynnydd mewn gwariant neu ostyngiad mewn incwm. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn. Mae sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2025-26 fel a ganlyn.

Dengys y Fantolen gyfanswm o £2,334,839 o gronfeydd wrth gefn. Mae holl gronfeydd wrth gefn y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn anghyfyngedig.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y meysydd sydd, yn eu barn nhw, yn cynnwys y risg ariannol fwyaf i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sef:

- cynnydd yn nifer y pryderon
- adolygiadau barnwrol neu apeliadau cyfreithiol
- colledion na ellir eu hyswrio e.e. dirwyon diogelu data
- cynnydd anrhagweladwy mewn gweithgarwch sicrhau ansawdd

Ar ôl ystyried y risgiau hyn a'r effaith ariannol bosibl pe baent yn cael eu gwireddu, mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddoeth cadw cronfeydd wrth gefn o fewn amrediad targed o £350,000-£700,000.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26, mae'r ymddiriedolwyr yn cadw cronfeydd wrth gefn sy'n werth £174,120, a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	£
Cronfeydd wrth gefn a gedwir	2,334,839
Asedau sefydlog gweithredol	(2,160,719)
Cronfeydd wrth gefn sydd ar gael	174,120

Mae asedau sefydlog gweithredol yn cynnwys cyfanswm asedau diriaethol ac anniriaethol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn is na'r amrediad targed oherwydd cynnydd yn y gwariant ar gyflawni ein cyfrifoldebau statudol

addasrwydd i ymarfer, ein buddsoddiad mewn prosiectau seilwaith TG ac arian a dynnwyd o'r portffolio buddsoddi oherwydd cynnydd mewn gwariant arian parod.

Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y Cyngor werthu adeilad y pencadlys ar ôl adolygu'r sefyllfa ariannol yn fanwl, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chynnig gwerth am arian i osteopathiaid ac i'r cyhoedd. Ers y pandemig, mae'r sefydliad wedi parhau i ddefnyddio model gweithio hybrid i raddau helaeth, ac ni chaiff yr adeilad ei ddefnyddio'n ddigonol. Bydd y lleihad yn y gwariant sy'n ofynnol i redeg yr adeilad, ynghyd â lleihad arall mewn gwariant a nodir yn ein Fframwaith Ariannol ac Asedau, yn cyfrannu at gynyddu cronfeydd rhydd mewn blynyddoedd i ddod. Ar ôl i'r adeilad gael ei werthu, bydd polisi newydd yn cael ei lunio ar gyfer cronfeydd wrth gefn er mwyn adlewyrchu ein sefyllfa ariannol yn well, ac yn unol â'n dyletswyddau elusennol. Fel rhan o hyn, bydd yr ymddiriedolwyr yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a'r modd y gellir eu defnyddio blynyddoedd ariannol i ddod.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad y dylid cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Strategaeth fuddsoddi

Caiff buddsoddiadau eu prasio ar sail gwerth y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Caiff enillion a cholledion a wireddwyd ac nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr.

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol fuddsoddiad o £845,835 mewn portffolio amrywiol, risg ganolog. Rheolir y gronfa gan Brewin Dolphin ac fe'i dosberthir ar y Fantolen fel ased anghyfredol. Mae'r portffolio wedi perfformio'n dda eleni, gydag enillion o fwy na £120k ar fuddsoddiadau yn ystod y flwyddyn. Tynnwyd arian i lawr deirgwaith yn ystod y flwyddyn i reoli'r llif arian parod y cyfeirir ato ar y dudalen flaenorol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr yr elusen hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Osteopathiaid 1993 i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddf hon, mae'r Cyngor wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (Safonau Cyfrifyddu'r DU a deddfau perthnasol).

Ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai y bydd yn fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a'i elw neu ei golledion ar gyfer y cyfnod hwn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson.
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion a nodir yn y SORP Elusennau perthnasol.
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn parhau ar y sail honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a datgelu ei sefyllfa ariannol ar unrhyw adeg gyda chywirdeb rhesymol. Dylent hefyd alluogi'r Cyngor i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Osteopathiaid 1993 a Deddf Elusennau 2011.

Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac mae'n cymryd camau rhesymol i asesu a rheoli risg, ynghyd ag ymgymryd â gweithgareddau archwilio anariannol ar waith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a sicrhau bod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra yn cael eu hatal a'u canfod.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn aelod o'r Cyngor ac mae'n gallu adrodd am faterion perthnasol ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor.

Cymeradwywyd gan y Cyngor ar xx Gorffennaf 2026, a llofnodwyd ar ran y Cyngor gan:



Jo Clift

Cadeirydd
15 Gorffennaf 2026

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, y fantolen a'r datganiad llif arian, a nodiadau ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2026 ac o symudiad net yr elusen mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Cawsom ein penodi'n archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sydd mewn grym o dan y Ddeddf. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu

disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaethom, ni nodwyd unrhyw ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod sydd o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor. Nid yw ein barn ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall, ac nid ydym yn mynegi casgliad pendant o unrhyw fath ynglŷn

â'r wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes yna anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall fod yna gamddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall.

Os nodwn anghysonderau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau o bwys ymddangosiadol, rhaid i ni benderfynu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys mewn perthynas â'r wybodaeth arall. Os byddwn, ar sail y gwaith a wnaethom, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall hon, bydd yn ofynnol i ni roi gwybod am y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt i chi yn ôl Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, os ydym o'r farn bod y canlynol yn wir:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan yr elusen; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw datganiadau ariannol yr elusen yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth na'r holl esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 41, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, a nhw hefyd sy'n gyfrifol am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw fesurau rheoli mewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu datod yr elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys pe bai'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gâi eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a nodir uchod, er mwyn dod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll. Isod, nodir y graddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll:

Ar sail ein dealltwriaeth o'r elusen a'r amgylchedd mae'n gweithredu ynddo, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o ran peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â gofynion rheoleiddio Deddf Osteopathiaid 1993, ac ystyriwyd i ba raddau y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Hefyd, fe wnaethom ystyried y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gaiff effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), deddfwriaeth trethiant, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth cyflogaeth.

Fe wnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer camddefnyddio'r datganiadau ariannol yn dwyllodrus (yn cynnwys y risg o ddiystyru mesurau rheoli) a phenderfynu bod y prif risgiau'n gysylltiedig â phostio cofnodion amhriodol o ran referniw a thuedd rheolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Roedd y gweithdrefnau archwilio a ddilynwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

Trafodaethau gyda rheolwyr, yn cynnwys ystyried achosion hysbys neu bosibl o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, a thwyll;

- Gwerthuso mesurau rheoli'r rheolwyr a luniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Pennu a phrofi cofnodion cyfrifyddu, yn enwedig y cofnodion hynny a oedd yn arddangos y nodweddion a nodwyd gennym fel dangosyddion posibl o afreoleidd-dra; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu hollbwysig.

Oherwydd y cyfyngiadau cynhenid sy'n perthyn i archwilio, ceir risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, yn cynnwys afreoleidd-dra a all arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau.

Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y tynnir cydymffurfio â chyfraith neu reoliad o'r digwyddiadau a'r trafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd y risg hefyd yn fwy o ran afreoleidd-dra yn sgil twyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys celu, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio bwriadol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Aethpwyd i'r afael â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un, ar wahân i ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am ein barn.


HaysMac LLP

Archwilwyr Statudol

15 Gorffennaf 2026

10 Queen Street Place

Llundain EC4R 1AG

Mae HaysMac LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd o dan adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026


Nodiadau		2026 £	2025 £
Incwm gan y			
Gweithgareddau elusennol	2	3,202,256	2,971,497
Buddsoddiadau	3	9,339	21,961
Cyfanswm		3,211,595	2,993,458
Gwariant ar y			
Gweithgareddau elusennol	4	3,598,580	3,311,444
Cyfanswm y gwariant		3,598,580	3,311,444
Gwariant net cyn enillion ar fuddsoddiadau		(386,985)	(317,986)
Enillion net ar fuddsoddiadau		120,750	36,630
Gwariant net		(266,235)	(281,356)
Cysoni cronfeydd			
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		2,601,074	2,882,430
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen	13	2,334,839	2,601,074

Mae'r diffyg am y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'r holl incwm a'r holl wariant yn anghyfyngedig.

Mantolen

Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026		Nodiadau	2026 £	2025 £
Asedau anghyfredol				
Asedau anniriaethol	8		691,431	213,962
Asedau diriaethol	8		1,469,288	1,503,081
Buddsoddiad (portffolio)	9		845,835	1,317,560
Cyfanswm yr asedau anghyfredol			3,006,554	3,034,603
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	10		109,508	193,311
Arian parod yn y banc ac wrth law			19,918	277,969
Cyfanswm yr asedau cyfredol			129,426	471,280
Rhwymedigaethau cyfredol				
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	11		(801,141)	(904,809)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol			(801,141)	(904,809)
Rhwymedigaethau cyfredol net			(671,715)	(433,529)
Asedau net			2,334,839	2,601,074
Cynrychiolir gan:				
Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig				
- Cronfeydd wrth gefn dynodedig			161,290	535,689
- Cronfeydd wrth gefn cyffredinol			2,173,549	2,065,385
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn			2,334,839	2,601,074

Fe'i cymeradwywyd a'i hawdurdodwyd i'w gyhoeddi gan aelodau'r Cyngor ar 15 Gorffennaf 2026 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Jo Clift

Cadeirydd

Datganiad llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Nodiadau	2026 £	2025 £
Cysoni gwariant net â llif arian parod sy'n deillio o weithgareddau gweithredu:		
Gwariant net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol)	(266,235)	(281,356)
Dibrisiant	66,050	56,354
Enillion ar fuddsoddiadau	(128,275)	(47,878)
Difidendau, llog a rhenti sy'n deillio o fuddsoddiadau	1,814	10,712
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr 10	83,803	(59,186)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr 11	(103,668)	109,264
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu	(346,511)	(212,090)
Llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau buddsoddi		
Difidendau, llog a rhenti sy'n deillio o fuddsoddiadau	(1,814)	(10,712)
Prynu asedau sefydlog anniriaethol 8	(480,927)	(213,962)
PPrynu asedau sefydlog diriaethol 8	(28,799)	(12,164)
Enillion yn sgil gwerthu buddsoddiadau 9	600,000	—
Arian parod net a gynhyrchwyd/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi	88,460	(236,838)
Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd	(258,051)	(448,928)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	277,969	726,897
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	19,918	277,969
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19,918	277,969

Nodiadau ar y datganiadau ariannol – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

1. Prif bolisiau cyfrifyddu

Sail y cyfrifyddu

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993. Fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig, a chyfeiriad y brif swyddfa yw Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r 'Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn SORP Elusennau y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol fel y'i haddaswyd trwy ailbrizio buddsoddiadau.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling (£). Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn bodloni'r diffiniad o 'endid budd cyhoeddus' o dan FRS 102.

Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu hollbwysig

Er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi adolygu ei bolisiau cyfrifyddu a'r symiau a gofnodir yn y cyfrifon blynnyddol er mwyn sicrhau bod unrhyw amcangyfrifon a dyfarniadau sydd â'r risg fwyaf o achosi addasiad perthnasol i'r cyfrifon yn cael eu datgelu. Ym marn y Cyngor, nid oes yna unrhyw amcangyfrifon na dyfarniadau arwyddocaol yn gysylltiedig â pharatoi'r datganiadau ariannol.

Asedau anniriaethol

Yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102), caiff costau meddalwedd a gweinyddion cwmwl (sy'n costio mwy na £750) eu trin fel asedau anniriaethol a byddant yn destun amorteiddio. Darperir amorteiddio ar asedau anniriaethol, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

System CRM	10 mlynedd
Meddalwedd gyfrifiadurol o fath arall	5 mlynedd

Asedau sefydlog diriaethol

Caiff yr holl asedau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn ac sy'n costio mwy na £1,000 (neu fwy na £750 yn achos offer cyfrifiadurol), eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

Adeilad rhydd-ddaliadol	50 mlynedd
Dodrefn swyddfa	5 mlynedd
Offer swyddfa	3 blynedd
Caledwedd cyfrifiadurol	3 blynedd

Ni chaiff tir ei ddibrisio.

Incwm

Cydnabyddir incwm sy'n deillio o ffioedd cofrestru a ffioedd eraill dros y cyfnod y darperir gwasanaeth, felly mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ennill hawl i'r incwm. Yn achos incwm ffioedd cofrestru, mae hyn yn digwydd dros gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y cofnodir yr unigolyn ar y Gofrestr am y tro cyntaf. Cyfrifir incwm buddsoddi, yn cynnwys incwm llog banc, fel y'i henillwyd.

Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar sail gwerth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion a wireddwyd ac nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr a lle bwriedir cadw'r arian hwn i greu elw am fwy na 12 mis.

Darparu ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff rhwymedigaeth ei mesur ar adeg ei chydabod ar sail ei chost hanesyddol, a chaiff ei mesur wedyn ar sail yr amcangyfrif gorau o'r swm sydd ei angen i dalu am y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd.

Gwariant

Cyfrifir am yr holl wariant ar sail croniadau. Caiff rhwymedigaeth ei chydabod pan fydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ymrwymo i rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti. Caiff gwariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag un gweithgaredd ei ddyrannu i'r gweithgaredd hwnnw yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Caiff costau y gellir eu priodoli i fwy nag un categori gwariant eu dosrannu ar sail yr amcangyfrif o faint o amser staff y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd hwnnw yn ystod y flwyddyn.

Cyfraniadau pensiwn

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer gweithwyr cymwys. Codir cyfraniad y cyflogwr am y flwyddyn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y caiff ei ennill gan y gweithiwr.

Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn

aelodau'r Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a gaiff eu neilltuo yn ôl disgrisiwn aelodau'r Cyngor at ddibenion penodol.

Adneuon tymor byr

Mae adneuon tymor byr yn symiau o arian parod a gedwir fel adnau mewn banciau cydnabyddedig.

Busnes gweithredol

Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni dros gyfnodau ariannol blaenorol er mwyn gwrthsefyll unrhyw amgylchiadau anrhagweladwy, ac mae aelodau'r Cyngor (sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr) yn parhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Un o'r mesurau a ddefnyddir i bennu busnes gweithredol yw lefel y cronfeydd wrth gefn. Er bod y cronfeydd rhydd islaw'r amrediad targed, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y gellir cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, fel y nodir ar dudalen 39, heb unrhyw ansicrwydd perthnasol.

Offerynnau ariannol

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerth trafodiad ac yna eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Mae asedau ariannol a gedwir ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian parod, arian mewn banc ac arian mewn llaw, ynghyd â dyledwyr masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol a gedwir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys croniadau, masnach a chredydwyr eraill.

2. Incwm sy'n deillio o weithgareddau elusennol

Ffioedd cofrestru yw'r brif ffynhonnell incwm, a nodir incwm arall a dderbyniwyd yn y dadansoddiad isod:

	2026 £	2025 £
Ffioedd cofrestru	3,198,646	2,961,625
Incwm arall	3,610	9,872
Cyfanswm	3,202,256	2,971,497

3. Incwm sy'n deillio o fuddsoddiadau

	2026 £	2025 £
Llog sy'n deillio o fuddsoddiadau (yn cynnwys llog banc)	9,339	21,961
Cyfanswm	9,339	21,961

4. Gweithgareddau elusennol

Dyma'r gwariant ar gyfer pob swyddogaeth yn ystod y flwyddyn:

	Uniongyrc hol £	Costau cymorth £	Cyfanswm 2026 £	Cyfansw 2025 £
Gweithgareddau elusennol				
Addysg a safonau proffesiynol	520,458	316,174	836,632	980,550
Cofrestru	181,900	214,999	396,899	392,498
Addasrwydd i ymarfer	1,203,539	417,349	1,620,888	1,187,761
Cyfathrebu ac ymchwil	427,986	316,175	744,161	750,635
Cyfanswm	2,333,883	1,264,697	3,598,580	3,311,444

5. Costau cymorth

	Rheoli	Llywodraet hu	Adnoddau canolog ac ariannu	TG	Cyfanswm 2026	Cyfanswm 2025
	£	£	£	£	£	£
Costau cymorth						
Addysg a safonau proffesiynol	140,274	63,931	76,620	35,349	316,174	328,103
Cofrestru	95,387	43,473	52,102	24,037	214,999	214,965
Addasrwydd i ymarfer	185,162	84,388	101,139	46,660	417,349	328,104
Cyfathrebu ac ymchwil	140,275	63,931	76,620	35,349	316,175	260,220
Cyfanswm	561,098	255,723	306,481	141,395	1,264,697	1,131,392

Ailgodwyd costau cymorth (TG, Llywodraethu, ac Adnoddau Canolog ac Ariannu) ar draws meysydd busnes eraill ar sail nifer y staff yn yr adrannau hynny.

6. Llywodraethu

	2026 £	2025 £
Costau llywodraethu		
Ffioedd aelodau'r Cyngor (yn cynnwys Yswiriant Gwladol)	102,737	106,980
Ffioedd cymdeithion y Cyngor (yn cynnwys Yswiriant Gwladol)	3,400	4,800
Costau llywodraethu eraill	149,586	129,972
Cyfanswm	255,723	241,752

Taliadau i aelodau anweithredol

Aelodau'r Cyngor

Yn y flwyddyn yr adroddir amdani, cyfanswm gwerth y taliadau cydnabyddiaeth a dalwyd i aelodau'r Cyngor (cyfanswm o 10) oedd £95,250, yn cynnwys lwfansau cyfrifoldeb (2025: £103,700). Ar ben hynny, roedd cyfanswm y treuliau a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor ac i gyflenwyr am deithio a llety yn £15,245 (2025: £25,327).

Enw	Swydd	Lleoliad	Cyfradd Flynyddol £	Yswiriant Gwladol £
Jo Clift	Cadeirydd	Llundain	30,000	3,357
Daniel Bailey	Aelod	Wolverhampton	7,800	419
Harry Barton ¹	Aelod	Birmingham	10,050	757
Gill Edelman ²	Aelod	Dorking	5,850	315
Sandie Ennis	Aelod	Llundain	7,800	419
Caroline Guy	Aelod	Ynys Wyth	7,800	419
Patricia McLure ³	Aelod	Gogledd Iwerddon	10,050	757
Katie Oswell ⁴	Aelod	Yr Alban	1,300	70
David Probert ⁵	Aelod	Llundain	4,550	245
Debra Towse ⁶	Aelod	Cymru	10,050	729
Cyfanswm			95,250	7,487

Caiff y taliadau cydnabyddiaeth a ddangosir yn y tabl uchod eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r Cyngor.

Mae Deddf Osteopathiaid 1993 yn caniatáu taliadau cydnabyddiaeth i aelodau'r Cyngor.

Cymdeithion y Cyngor

Mae rhaglen Cymdeithion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn caniatáu i ddau osteopath gysgodi'r Cyngor, ynghyd â mynychu cyfarfodydd, a chyfrannu atynt, i ddatblygu eu sgiliau llywodraethu ac arwain. Nid oes gan gymdeithion y cyngor hawliau pleidleisio.

Enw	Swydd	Lleoliad	Cyfradd Flynyddol £	Yswiriant Gwladol £
Gabrielle Anderson ⁷	Cydymaith y Cyngor	Plymouth	1,400	-
Arwel Roberts	Cydymaith y Cyngor	Cymru	2,000	-
Cyfanswm			3,400	

1. Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

2. Ymddiswyddodd ym mis Rhagfyr 2025

3. Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi ac Addysg

4. Yn y swydd o fis Chwefror 2026

5. Yn y swydd o fis Medi 2025

6. Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

7. Daeth ei chyfnod i ben ym mis Tachwedd 2025

Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £340 i aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol am fynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn cael lwfans darllen o £75 y dydd a ffi sgrinio o £25 am bob achos a gaiff ei sgrinio. Hawliodd aelodau'r pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol a oedd yn gyfanswm o £208, 205 gyda'r treuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr am deithio a llety, a oedd yn gyfanswm o £19,854.

Aelodau allanol pwyllgorau eraill

Yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £340 i aelodau allanol y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl am fynychu cyfarfodydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Hawliodd aelodau cyfetholedig y pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol a oedd yn £9,974 gyda'r treuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr am deithio a llety, a oedd yn gyfanswm o £7,604.

Gwariant net ar ôl codi tâl

	2026 £	2025 £
Gwariant net ar gyfer y flwyddyn a nodir ar ôl codi tâl		
Ffioedd a dalwyd i HaysMac LLP		
- Archwiliad allanol	26,340	24,960
Dibrisiant asedau	66,050	56,355

7. Costau gweithwyr a staff

Dyma'r costau staff yn ystod y flwyddyn:

	2026 £	2025 £
Costau staff		
Cyflogau	1,518,170	1,402,573
Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	190,816	146,666
Pensiynau	150,734	134,315
Cyfanswm	1,859,720	1,683,554

Ym mlwyddyn ariannol 2025-26, roedd y costau dileu swyddi a'r costau terfynu cyflogaeth yn £dim (2025: £dim).

	2026	2025
Nifer cyfartalog y staff		
Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd	5	5
Cyfathrebu	6	5
Addysg a Safonau Proffesiynol	6	6
Addasrwydd i Ymarfer	8	7
Cofrestru	4	4
Adnoddau	3	3
Cyfanswm	32	30

Taliadau cydnabyddiaeth i bersonél rheoli allweddol

Mae'r staff rheoli allweddol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu, a'r Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer.

Cyfanswm enillion y staff rheoli allweddol oedd £416,284 (2025: £402,905). Cyfanswm y staff ag enillion trethadwy yn perthyn i fandiau cyflog uwch oedd:

	2026	2025
£60,000-£70,000	2	1
£70,000-£80,000	0	0
£80,000-£90,000	0	0
£90,000-£100,000	0	0
£100,000-£110,000	2	2
£110,000-£120,000	0	0
£120,000-£130,000	1	1

Costau pensiwn

Roedd y cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chynllun pensiwn y Cyngor yn cynnwys cyfraniadau a oedd yn daladwy am y flwyddyn, sef £150,734 (2025 - £134,315).

8. Asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol**Asedau anniriaethol**

	Asedau anniriaethol £
Cost	
Ar 1 Ebrill 2025	233,962
Ychwanegiadau	480,927
Gwarediadau	—
Ar 31 Mawrth 2026	714,889
Amortieiddiad	
Ar 1 Ebrill 2025	20,000
Tâl am y flwyddyn	3,458
Gwarediadau	—
Ar 31 Mawrth 2026	23,458
Gwerth llyfr net	
Ar 31 Mawrth 2025	213,962
Ar 31 Mawrth 2026	691,431

Roedd pob ased anniriaethol yn gysylltiedig â Meddalwedd Gyfrifiadurol.

Asedau Sefydlog Diriaethol

	Dodrefn swyddfa	Caledwedd cyfrifiadur	Adeilad rhydd- ddaliadol	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cost				
Ar 1 Ebrill 2025	114,970	36,812	2,244,172	2,395,954
Ychwanegiadau	—	28,799	—	28,799
Gwarediadau	—	—	—	—
Ar 31 Mawrth 2025	114,970	65,611	2,244,172	2,424,753
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2025	95,597	21,759	775,517	892,873
Tâl am y flwyddyn	10,161	14,245	38,186	62,592
Gwarediadau	—	—	—	—
Ar 31 Mawrth 2026	105,758	36,004	813,703	955,465
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2025	19,373	15,053	1,468,655	1,503,081
Ar 31 Mawrth 2026	9,212	29,607	1,430,469	1,469,288

9. Buddsoddiadau

	2026 £	2025 £
Ar ddechrau'r flwyddyn	1,317,560	1,269,682
Buddsoddiadau a werthwyd yn ystod y flwyddyn	(600,000)	-
Incwm a ailfuddsoddwyd	24,447	22,466
Enillion buddsoddi	120,750	36,630
Ffioedd a gymerwyd	(16,922)	(11,218)
Cyfanswm y portffolio	845,835	1,317,560

Caiiff buddsoddiadau eu rheoli gan Brewin Dolphin a chânt eu cadw mewn portffolio risg ganolig amrywiol, sy'n cynnwys cymysgedd o ecwiti (£462,049), bondiau (£232,872), ac asedau eraill, yn cynnwys arian parod (£150,914).

10. Dyledwyr

	2026 £	2025 £
Dyledwyr masnach	4,025	21,173
Rhagdaliadau ac incwm cronrus	103,708	170,886
Dyledwyr eraill	1,775	1,252
Cyfanswm y dyledwyr	109,508	193,311

11. Credydwyr

	2026 £	2025 £
Credydwyr masnach	89,535	49,968
Incwm gohiriedig	442,044	702,322
Croniadau	198,724	97,133
Credydwyr eraill	10,005	8,134
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	60,833	47,252
Cyfanswm y credydwyr	801,141	904,809

12. Incwm gohiriedig

	2026 £	2025 £
Ar 1 Ebrill	702,322	621,893
Swm a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn	442,044	702,322
Swm a ryddhawyd i'r datganiadau ariannol	(702,322)	(621,893)
Cyfanswm yr incwm gohiriedig	442,044	702,322

Caiiff incwm sy'n deillio o ffioedd cofrestru blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r ffi gofrestru'n berthnasol iddo. Caiiff yr holl incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ei ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn ganlynol.

13. Cronfeydd wrth gefn

	Ar 1 Ebrill 2025 £	Incwm £	Gwariant £	Wedi'i drosglwyddo £	Ar 31 Mawrth 2026
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol	2,065,385	3,332,345	(3,413,339)	189,158	2,173,549
Cronfeydd wrth gefn dynodedig					
- Cyfreithiol cyffredinol	123,031	-	(123,031)	-	-
- Cronfa arloesi	-	-	(33,510)	100,000	66,490
- Cynhadledd IO 2023	(2,712)	-	-	2,712	-
- Buddsoddi mewn TG	152,093	-	-	(152,093)	-
- Costau seilwaith NCOR	123,500	-	(28,700)	-	94,800
- Canfyddiadau cofrestreion	3,772	-	-	(3,772)	-
- Datblygu'r wefan	136,005	-	-	(136,005)	-
Cyfanswm y cronfeydd	2,601,074	3,332,345	(3,598,580)	-	2,334,839

Mae'r cronfeydd wrth gefn dynodedig yn ymwneud ag arian i ategu gwaith parhaus y Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig ("NCOR"); mae pum mlynedd o gostau seilwaith wedi'u clustnodi (£123,500), a cheir cronfa wrth gefn ar gyfer prosiectau arloesi (dyrannwyd £100,000 gan y Cyngor).

Cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol

	Ar 1 Ebrill	Incwm	Gwariant	Wedi'i drosglwyddo	Ar 31 Mawrth 2025
	£	£	£	£	
Cronfeydd wrth gefn					
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol	2,386,217	3,030,088	(3,150,920)	(200,000)	2,065,385
Cronfeydd wrth gefn dynodedig	496,213	—	(160,524)	200,000	535,689
	<u>2,882,430</u>	<u>3,030,088</u>	<u>(3,311,444)</u>	<u>-</u>	<u>2,601,074</u>

14. Trafodiadau partïon cysylltiedig

Mae Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestreidd, yn un o Ymddiriedolwyr y Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig.

Mae Dr Daniel Bailey, Aelod o'r Cyngor, yn Gymrawd Ymchwil y Cyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig.

Nid oes unrhyw achosion uchel lys heb eu datrys.

15. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ni cheir rhwymedigaethau digwyddiadol.

16. Digwyddiad ers dyddiad y fantolen

Ers dyddiad y fantolen, mae'r elusen wedi cyfnewid contractau ar gyfer gwerthu un o'i adeiladau, a hynny am £3.3m. Gwerth llyfr yr eiddo yw £1.4m. Disgwyllir i'r broses werthu gael ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2026.

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

info@osteopathy.org.uk
osteopathy.org.uk

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn elusen gofrestredig
yng Nghymru a Lloegr (1172749)